

Agor Dau Ddrws



**Cyflwyniad i
Waith Ieuenctid
Dwyieithog**



Datblygwyd yr argraffiad gwreiddiol (2000) gan:



**Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid
Gwirfoddol Cymru**

Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Ffôn: 02920 473498 www.cwvys.org.uk

Comisiynwyd yr ail argraffiad (2009) gan:



a chefnogwyd gan Gangen Strategaeth
Gwaith Ieuenctid, Yr Adran Plant, Addysg,
Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS)



Cynhyrchwyd argraffiadau 1 a 2 gan:



Unedau 2-4, Parc Busnes Aberarad, Castellnewydd
Emlyn, Sir Gaerfyrddin, SA38 9DB
Ffôn: 01239 711668 www.iaith.eu

Cynnwys

	Tudalen
Rhagymadrodd	3
1.0 Cyflwyniad	4
1.1 Siaradwyr Cymraeg ifanc	4
1.2 Yr Iaith Gymraeg a Pholisi Cyhoeddus	5
1.3 Yr iaith Gymraeg a Pholisi Gwaith Ieuenctid	6
1.4 Iaith a darpariaeth gwaith ieuenctid	7
2.0 Deall Gwaith Ieuenctid Dwyieithog	9
2.1 Iaith a hunaniaeth	9
2.2 Y sbectrwm sgiliau iaith	10
2.3 Dewisiadau iaith	10
2.4 Iaith a chyfle cyfartal	11
2.5 Creu amgylchedd sy'n galluogi	12
3.0 Darpariaeth Ddwyieithog	13
3.1 Yr amgylchedd gwaith ieuenctid	13
3.2 Gweithwyr ieuenctid a'u sgiliau ieithyddol	19
3.3 Trefnu gweithgareddau dwyieithog	22
4.0 Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg	29
5.0 Beth nesaf?	30
6.0 Adnoddau a Chysylltiadau	31

Rhagymadrodd

Mae'r llawlyfr hwn wedi'i anelu at weithwyr ieuencid a rheolwyr gwaith ieuencid ym mhob sector o ddarpariaeth ieuencid – statudol, gwirfoddol ac annibynnol. Dylai hefyd fod yn berthnasol i wasanaethau ieuencid o bob math, boed y rheiny'n glybiau traddodiadol, grwpiau gweithgaredd, gwasanaethau cefnogi neu'n seiliedig ar brosiectau.

Y tu hwnt i'r gwasanaeth ieuencid ei hun dylai'r cynnwys hefyd fod yn berthnasol i gynulleidfaeodded ehangach sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn anffurfiol – canolfannau hamdden, clybiau chwaraeon, grwpiau amgylcheddol a sefydliadau celfyddydol. Unrhyw un sy'n gweithio gyda grwpiau o bobl ifanc yn y gymuned.

Nod y llawlyfr yw cynnig cyngor ac arweiniad ymarferol ynglŷn â sut i hyrwyddo dwyieithrwydd o fewn y ddarpariaeth gwaith ieuencid prif ffrwd yng Nghymru. Mae'n seiliedig ar arfer da a welir yn y maes yn ogystal ag arferion dwyieithog cyffredin. Er na allwn gyfeirio at bob enghraifft o ddarpariaeth gwaith ieuencid mewn llawlyfr o'r math hwn, yr un yw'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer pob grŵp. Gobeithiwn y byddwch yn cymryd egwyddorion yr enghreifftiau a amlinellir yn y ddogfen hon a'u haddasu i'ch amgylchiadau eich hunan.

Tra bod yna ddadl gref dros ddatblygu gwaith ieuencid cyfochrog yn seiliedig ar ddefnydd iaith mewn rhannau helaeth o Gymru, yr hyn a geir mewn gwirionedd yw poblogaeth o bobl ifanc gynyddol ddwyieithog yn y ddarpariaeth brif ffrwd. Mae darpariaeth ddwyieithog i ieuencid wedi hen gael ei chydabod a'i chadarnhau fel amgylchiad dilys. Fodd bynnag, mae angen cynyddu a gwella nifer a natur lleoliadau gwaith ieuencid dwyieithog yng Nghymru i ddiwallu anghenion nifer cynyddol y bobl ifanc ddwyieithog yng Nghymru. Mae'r ddogfen hon felly yn cynnig rhai canllawiau ymarferol i'r rheiny sy'n gyfrifol am hwyluso'r cyd-destunau dwyieithog hyn.

Mae'r ail argraffiad hwn o Agor Dau Ddrws wedi'i ariannu dan nawdd Rhwydwaith Gefnogi Cymunedau yn Gyntaf ac Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mawr obeithiaf y bydd y ddogfen hon o gymorth ymarferol wrth hwyluso Cymru sy'n wirioneddol ddwyieithog.

Gareth Ioan
IAITH cyf.
Ionawr 2010



1.0 Cyflwyniad

1.1 Siaradwyr Cymraeg Ifanc

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r iaith Gymraeg wedi profi adfywiad. Cafwyd sail gadarn gyda chyhoeddi ffigyrau Cyfrifiad 2001 a amlygodd gynnydd yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Cofnodwyd bod mwy nag un mewn pump (20.8%) o boblogaeth Cymru yn siarad Cymraeg. Canran a oedd yn cynrychioli 582,368 o unigolion, hen ac ifanc¹. Mae arolygon eraill sydd wedi'u cynnal ar ôl y Cyfrifiad wedi dangos bod y duedd yn parhau ac mae'n debygol y bydd cynnydd pellach erbyn 2011².

Mae nifer gynyddol o bobl ifanc yng Nghymru yn ddwyieithog yn nwy iaith eu gwlad. Dangosodd Cyfrifiad 2001 bod 142,444 o siaradwyr Cymraeg rhwng 10–19 oed, 37.4% o'u poblogaeth. Mae hyn

Nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg: 10–19 mlwydd yn ôl eu hardal awdurdod lleol³

	Nifer siaradwyr 10-19 mlwydd (2001)	% o'r boblogaeth 10-19 mlwydd (2001)
Sir Gaerfyrddin	12,781	58.5
Gwynedd	12,335	85.6
Caerdydd	10,345	24.4
Rhondda Cynon Taf	9,687	30.8
Caerffili	7,700	33.6
Sir y Fflint	6,791	35.2
Ceredigion	6,637	67.4
Casnewydd	6,580	34.6
Ynys Môn	6,574	79.2
Powys	6,572	42.5
Abertawe	6,478	22.3
Conwy	6,372	49.1
Sir Benfro	5,975	41.1
Castell-nedd Port Talbot	5,188	29.8
Bro Morgannwg	4,920	30.2
Sir Ddinbych	4,855	41.8
Tor-faen	4,847	39.2
Wrecsam	4,526	27.6
Pen-y-bont ar Ogwr	4,506	27.2
Sir Fynwy	3,414	31.7
Blaenau Gwent	3,284	34.3
Merthyr Tudful	2,077	26.1

yn dangos gwrthdroad arwyddocaol yn nirywiad yr iaith Gymraeg yn ystod yr ugeinfed ganrif.

At ei gilydd, mae dosbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg ifanc yn adlewyrchu'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn gyffredinol ac eithrio rhai o gymoedd De Cymru lle mae addysg cyfrwng Cymraeg wedi cael effaith sylweddol. Cymaint felly, bod ardaloedd mewn bröydd sy'n siarad Saesneg yn draddodiadol yn dechrau cynhyrchu poblogaethau o siaradwyr Cymraeg sy'n cymharu o ran nifer â'r rheiny a geir yn y bröydd Cymraeg traddodiadol yng Ngogledd a Gorllewin Cymru. Er bod canrannau'n parhau i fod yn galonogol o uchel yng Ngheredigion ac Ynys Môn – 67.4% a 79.2% yn y drefn honno – mae gwir niferoedd siaradwyr Cymraeg ifanc yn uwch mewn nifer o siroedd eraill. Mae Caerdydd, Rhondda Cynon Taf a Chaerffili yn ardaloedd nodedig yn hyn o beth tra bod Sir y Fflint a Chasnewydd hefyd wedi ennill poblogaethau arwyddocaol o siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau oedran iau.

Mae'n rhaid cydnabod bod sefydlu Cymraeg fel pwnc craidd yng nghwricwlwm ysgolion Cymru yn ddylanwad mawr ar y ffigyrau hyn. At hynny, rhaid nodi fod canlyniadau'r Cyfrifiad yn aml yn adlewyrchu dyheadau'r rhieni ar gyfer eu plant yn hytrach na dealltwriaeth fanwl o'u lefelau sgiliau iaith. Fodd bynnag, mae'r duedd wedi'i hadlewyrchu gan dwf hunaniaeth Gymreig ddeinamig a hyderus sydd yn cael ei mynegi drwy lwyddiannau ym myd y cyfryngau, adloniant ac ar feysydd chwarae ac sydd, â dyfodiad y Cynulliad Cenedlaethol a chymdeithas sifil Gymreig, wedi gweld ein pobl ifanc yn manteisio o'r newydd ar eu hunaniaeth Gymreig.

1 Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2003).

2 Arolwg Defnydd Iaith, Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2004).

3 Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2003).

Mae natur gynyddol ddwyieithog Cymry ifanc felly yn ffactor mae angen i awdurdodau lleol a mudiadau ieuencid gwirfoddol ei ystyried wrth asesu anghenion y bobl ifanc maen nhw'n eu gwasanaethu ac wrth gynllunio a chyflwyno eu gwasanaethau ieuencid.

1.2 Yr Iaith Gymraeg a Pholisi Cyhoeddus

Mae'r iaith Gymraeg wedi profi cefnogaeth gynyddol gan wneuthurwyr polisi cyhoeddus Cymreig dros y degawd diwethaf. Ceir cefnogaeth drawsbleidiol unfrydol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a darpariaeth gynyddol o wasanaethau cyfrwng Gymraeg. Cafodd yr ymrwymiad trawsbleidiol hwnnw ei gadarnhau ym mis Gorffennaf 2002 pan gyhoeddwyd *Dyfodol Dwyieithog: Bilingual Future*, adroddiad Pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ddyfodol y Gymraeg.

“Mewn Cymru wirioneddol ddwyieithog, bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn ffynnu ac yn cael eu trin yn gydradd. Mae Cymru ddwyieithog yn golygu gwlad lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y naill iaith neu'r llall neu'r ddwy; gwlad lle y mae presenoldeb dwy iaith genedlaethol ... yn ffynhonnell balchder a chryfder i bawb”.

Arweiniodd y dyhead hwnnw at *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog* yn 2003, lle'r oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llafur/Democratiaid Rhyddfrydol) yn gosod ei gweledigaeth ar gyfer dyfodol dwyieithog ynghyd â mesurau ymarferol i wireddu'r nod hwnnw:

“Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo'n gryf i gefnogi a hybu'r iaith Gymraeg. Credwn fod y Gymraeg yn rhan annatod o hunaniaeth ein cenedl a byddwn yn parhau i wneud y cyfan sydd o fewn ein gallu i hybu ei lles. Credwn fod angen camau

cadarnhaol pellach o blaid yr iaith Gymraeg a bod cyfiawnhad dros eu cymryd ... Cred Llywodraeth y Cynulliad fod angen dull mwy cyfannol o wneud polisi a rhoi cefnogaeth i'r iaith Gymraeg a'r cymunedau Gymraeg. Fel Llywodraeth Cynulliad Cymru, ein swyddogaeth a'n cyfrifoldeb ni yw cymryd yr arweiniad wrth ddatblygu'r dull cyfannol hwnnw”.

Mae *Iaith Pawb* yn parhau i fod yn weithredol ac yn gonglfaen i bawb sy'n ymwneud â chynllunio iaith a datblygu'r Gymraeg. Mae llawer o'r cyfrifoldeb ynghylch hyrwyddo'r Gymraeg yn ymarferol yn parhau i gael ei ddwyn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, corff sy'n cael ei noddi gan y Cynulliad Cenedlaethol sy'n adrodd yn ôl i'r Gweinidog dros Dreftadaeth yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Wrth i ni baratoi'r argraffiad hwn o '*Agor Dau Ddrws*', mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg a gweision sifil yr Adran dros Dreftadaeth yn paratoi Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol o ran yr iaith Gymraeg gyda'r bwriad o gryfhau deddfwriaeth ymhellach mewn perthynas â statws a defnydd yr iaith Gymraeg yng Nghymru.

Ers cyhoeddi *Iaith Pawb*, mae proses hir dymor wedi'i chychwyn i brif ffrydio'r iaith Gymraeg i bob agwedd o gynllunio polisi a blaengareddau cyhoeddus yng Nghymru. Enghraifft o hyn yw'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf sy'n gosod ystyriaethau ieithyddol yn ganolog i'w ddull o weithredu.

“Mae strategaeth iaith Gymraeg a strategaeth Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad yn ategu ac yn cefnogi ei gilydd. Mae'r ddwy'n ymrwymadau hirdymor ac yn annog ac yn hyrwyddo strategaethau a mentrau cymunedol. Bydd cymunedau cryfach a mwy cynaliadwy yng nghadarnleoedd y Gymraeg yn helpu i gynnal yr iaith fel rhan o wead bywyd pob dydd yng Nghymru. Bydd annog Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn creu cyfleoedd cymdeithasol, diwylliannol ac addysgol a

chyfleoedd hyfforddi a busnes i gymunedau ym mhob rhan o Gymru. Yn yr un modd, mewn ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg mor amlwg, gall Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf chwarae rhan allweddol i greu'r amgylchiadau lle gall defnyddio'r iaith ddatblygu a ffynnu o fewn y gymuned, a thrwy hynny adeiladu ar y cynnydd y mae polisiau addysgol wedi esgor arnynt”.

Mae angen i'r holl fudiadau sy'n ymwneud â'r cyhoedd, felly, gadw mewn cof yr ystod eang o gefnogaeth gyhoeddus a gwleidyddol sydd wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf yng nghyswllt y Gymraeg; yn nhermau cyfle cyfartal, fel rhan o hunaniaeth genedlaethol gynyddol, o ran gweld dwyieithrwydd yn fantais i Gymru ac yn nhermau adlewyrchu dyheadau cenedlaethol cyffredinol i sicrhau dyfodol dwyieithog i'n hunain a'n plant.

1.3 Yr Iaith Gymraeg a Pholisi Gwaith Ieuencid

Yn nhermau polisi gwaith ieuencid, mae Datganiad y Cwricwlwm Gwaith Ieuencid ar gyfer Cymru (DCGIC), y ddogfen arweiniol ar gyfer gwaith ieuencid yng Nghymru, yn cydnabod natur ddwyieithog ein cymunedau ac arwyddocâd y Gymraeg i'n hunaniaeth genedlaethol. Mae'r ddogfen gwricwlwm yn pennu pedair prif thema ar gyfer arfer da mewn gwaith ieuencid sydd wedi datblygu'n litani i bob gweithiwr ieuencid. Mae'n datgan y dylai gwaith ieuencid gynnig cyfleoedd i bobl ifanc sy'n:

- addysgol,
- cyfranogol,
- galluogol, ac yn
- fynegiannol.

Tra bod materion iaith yn perthyn i'r pedair thema mae'r ddogfen yn rhagnodol a phendant wrth drafod iaith mewn perthynas â sicrhau cyfleoedd gwaith ieuencid mynegiannol, a ddylai fod yn ymwneud ag:

“Annog a galluogi pobl ifanc i fynegi eu teimladau a'u dyheadau trwy gyfleoedd creadigol, chwaraeon a phrofiadau heriol sy'n codi eu hymwybyddiaeth o'r canlynol: hunaniaeth ddiwylliannol; dwyieithrwydd a gwerth eu hiaith eu hunain; treftadaeth; parch tuag at amrywiaeth; dinasyddiaeth a pharch tuag at eraill.”⁴

Yn ychwanegol, ac yn arwyddocaol, mae'r DCGIC yn gosod darpariaeth cyfrwng Gymraeg yn bendant o fewn cyd-destun cyfle cyfartal – yr ethos sy'n sail i bob gwaith ieuencid da. Gan gyfeirio at ei ddisgrifiad o'r pedair thema mae'n datgan y:

“Dylai Gwaith Ieuencid trwy ei arfer:

- *hybu cyfleoedd a mynediad i bob person ifanc ni waeth am eu hil, rhyw, hunaniaeth rywiol, iaith, crefydd, anabledd, oedran, cefndir neu amgylchiadau personol;*
- *herio gormes ac anghydraddoldeb;*
- *cydnabod pwysigrwydd a gwerth yr iaith Gymraeg a'r angen i hybu'r defnydd a wneir ohoni...”*

Mae darparu dewis iaith yn rhan allweddol o gyfle cyfartal. Roedd *Ymestyn Hawliau*, adroddiad gwasanaeth ieuencid allweddol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2000 ac sydd wedi gosod y cyd-destun ar gyfer amryw o ddatblygiadau yn y gwasanaeth ieuencid dros y blynyddoedd dilynol, gan gynnwys Partneriaethau Ieuencid sirol, wedi gosod dewis iaith yn ganolog ac yn elfen hanfodol mewn darpariaeth gwaith ieuencid yng Nghymru:

“Dylai cymorth i bobl ifanc yng Nghymru gael ei strwythuro o amgylch hawl pob person ifanc i gael ystod o wasanaethau yn yr iaith o'i ddewis, sydd wedi'u cynllunio i hybu ei gyrhaeddiad a'i ddatblygiad fel unigolyn”. [Cyfieithiad]

Mae Estyn, yr arolygiaeth addysg, yn ymhelaethu ar yr egwyddor allweddol hon ac yn cynnwys dewis iaith, datblygu sgiliau iaith a chwricwlwm gwaith ieuencid sy'n meithrin dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn fframwaith ei harolygiad ar gyfer gwasanaethau cefnogi ieuencid.⁵ Mae Estyn hefyd yn cysylltu gwaith ieuencid sy'n ymwneud â hyn â'r Cwricwlwm Cymreig, gan weld darpariaeth ieuencid fel ffynhonnell gyflenwol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol i bobl ifanc.⁶

“Mae Estyn yn disgwyl i arolygwyr farnu a yw gofynion y Cwricwlwm Cymreig yn cael eu bodloni ai peidio ac i ba raddau y maent yn cyfrannu at ddatblygu gwybodaeth pobl ifanc am nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru, a'u dealltwriaeth ohonynt”.

Mae cysylltiadau allgyrsiol o'r fath hefyd yn cael eu hategu gan Gynlluniau Addysg Iaith Gymraeg awdurdodau lleol y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn eu cymeradwyo. Mae Strategaeth Ieuencid y Bwrdd, sydd â'r isdeitl 'Cynyddu defnydd cymdeithasol pobl ifanc (11-25) o'r Gymraeg' a gyhoeddwyd yn 2005, yn pwysleisio rôl y gwasanaeth ieuencid yn darparu cyd-destun anffurfiol yn y gymuned er mwyn i bobl ifanc fedru defnyddio'u Gymraeg. Wrth gyfeirio at y cynnydd sylweddol diweddar mewn sgiliau iaith Gymraeg sydd wedi'u nodi ymysg pobl ifanc, fel y trafodwyd uchod, mae'r Strategaeth yn nodi mai:

“Yr her i sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc, wrth reswm, yw cynllunio ar gyfer darparu cyd-destun cymdeithasol, cymunedol, a galwedigaethol fydd yn cefnogi'r modd y datblygir a defnyddir y sgiliau hyn... Mae'r cyfleoedd cymdeithasu hyn yn allweddol i sicrhau bod gan bobl ifanc ymdeimlad o berchenogaeth ar yr iaith. Maent hefyd yn hanfodol er mwyn cynnig cyd-destunau lle

gall unigolion ddatblygu eu sgiliau Gymraeg a meithrin hyder er mwyn defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd”.

Mae darparu gwasanaeth ieuencid dwyieithog felly yn ymwneud â:

- chydabod natur ddwyieithog Cymru a chryfhau hunaniaeth Cymru fel cenedl ddwyieithog;
- darparu cyfleoedd cyfartal i bob person ifanc er mwyn iddyn nhw allu cymryd rhan a mynegi eu hunain yn yr iaith y maen nhw'n ffafrio;
- darparu cwricwlwm gwaith ieuencid sy'n cynyddu dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg, ei hanes, diwylliant a materion perthnasol;
- darparu cyd-destun cymdeithasol anffurfiol lle mae pobl ifanc yn gallu defnyddio a gwella'u gwybodaeth o'r Gymraeg a chael mwy o hyder i ddefnyddio'u sgiliau Gymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd.

1.4 Iaith a darpariaeth gwaith ieuencid

Yn ganlyniad i ffactorau hanesyddol a demograffig, yn gyffredinol, mae gwaith ieuencid yng Nghymru yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Saesneg. Cadarnhaodd arolwg o ddarpariaeth ieuencid cyfrwng Gymraeg yng Nghymru yn 1998 (CIC/BIG)⁷ ganfyddiad gan SPAEM⁸ bod cyfleoedd cyfrwng Gymraeg o fewn y gwasanaeth ieuencid yn brin, yn wasgarog ac yn ad hoc. Yn ôl yr arolwg dim ond 13% o glybiau ieuencid oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn unig neu'n bennaf, tra bod 13% pellach yn datgan eu bod yn darparu amgylchedd dwyieithog ar wahanol adegau. Roedd amrywiadau daearyddol i'r patrwm hwn fel a oedd i'w ddisgwyl. Serch hynny, gwelwyd bod y mwyafrif helaeth (74%) o glybiau ieuencid yn lleoliadau uniaith Saesneg.

⁵ Arweiniad ar gyfer Arolygu Dwyieithrwydd mewn Gwasanaethau Cymorth Ieuencid, Estyn, (Awst 2007)

⁶ Arweiniad Atodol ar gyfer Arolygu Dwyieithrwydd mewn Gwasanaethau Cymorth Ieuencid, Estyn (Chwefror 2006).

⁷ Cyfleoedd Gymraeg a Darpariaeth Cwricwlwm Cymreig o fewn y Gwasanaeth Ieuencid yng Nghymru, Cwmni Iaith, CWVYS, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, (1998).

⁸ Safonau ac Ansawdd mewn Gwaith Ieuencid o fewn ALI yng Nghymru, SPAEM, Hawlfraint y Goron, (1997).



Fodd bynnag, wrth hyrwyddo cyfleoedd gwaith ieuentid dwyieithog mae'n bwysig sylweddoli bod cynnig darpariaeth yn gyfan gwbl trwy'r Gymraeg yn cael ei gydnabod yn rhan hanfodol o ddarparu cyfle cyfartal o fewn y gwasanaeth ieuentid. Dylid rhoi'r cyfle i bobl ifanc Cymraeg gymdeithasu mewn cyd-destunau lle mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn beth arferol, h.y. y brif os nad yr unig iaith a ddefnyddir. Mae lleoliadau o'r fath yn caniatáu i Gymry ifanc fynegi eu hunain yn rhydd yn y Gymraeg - heb y cyfaddawdau a orfodir arnynt mewn sefyllfaoedd dwyieithog. (Gellir cyffelybu'r cyfle cyfartal hwn â darpariaethau cyfochrog eraill, e.e. darpariaeth gyfochrog sydd wedi'i chyfyngu i ferched ifanc, grwpiau crefyddol penodol, grwpiau anghenion arbennig ac ati). Mae rhai mudiadau gwirfoddol ac awdurdodau lleol yn cydnabod yr angen hwn ac yn darparu'n benodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Er, fel mae'r ymchwil yn dangos, mae angen mwy o gyfleoedd o'r fath, yn enwedig yn Ne-ddwyrain a Gogledd-ddwyrain Cymru. Mae Adran 4 o'r ddogfen hon yn cynnig cyngor pellach ar ddarparu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg.

Tra bod darpariaeth uniaith Gymraeg yn hanfodol ac yn ddymunol, y gwirionedd sy'n wynebu llawer o weithwyr ieuentid o fewn y gwasanaeth ieuentid yw aelodaeth gynyddol ddwyieithog. Yn ychwanegol, dan eu Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol, mae'n ddyletswydd ar wasanaethau ieuentid yr awdurdodau lleol i sicrhau bod anghenion defnyddwyr Cymraeg yn cael eu diwallu i'r un lefel â defnyddwyr Saesneg. Mae darparu gwaith ieuentid sensitif ac addas yn y lleoliadau dwyieithog hyn, felly, yn dipyn fwy o her na gweithio gyda grwpiau uniaith o unrhyw gymuned iaith benodol. Ceisio mynd i'r afael â'r her honno rydyn ni yn y llawlyfr hwn.

2.0 Deall Gwaith Ieuenctid Dwyieithog

Os nad ydynt eisoes yn gwneud hynny, bydd gweithwyr ieuenctid y dyfodol yn debygol o weithio gyda grwpiau o bobl ifanc sy'n gynyddol ddwyieithog. Er mwyn ymdrin yn deg â phobl ifanc mewn sefyllfaoedd o'r fath bydd angen i ddarparwyr gwaith ieuenctid, yn fudiadau ac yn weithwyr ieuenctid, ddeall rhai o'r materion sylfaenol sy'n ymwneud ag iaith, a hynny mewn perthynas â pholisi ac arfer. Isod rydym yn amlinellu rhai o'r egwyddorion sylfaenol y dylid eu hystyried yn gyd-destun ar gyfer yr agweddau ymarferol a ddisgrifir mewn adrannau dilynol. Y prif ragdybiaethau yr ymdrinnir â nhw yw:

- **bod iaith yn holl bwysig i hunaniaeth bersonol a diwylliannol;**
- **bod gallu ieithyddol yn sbectwm o sgiliau;**
- **bod siarad dwy iaith yn golygu gorfod gwneud dewisiadau iaith;**
- **bod perthynas o rym yn bodoli rhwng ieithoedd a grwpiau iaith, ac felly**
- **bod rhaid galluogi a meithrin dwyieithrwydd cydradd ac effeithiol.**

2.1 Iaith a hunaniaeth

Gall materion ieithyddol fod yn sensitif iawn. Un o'r prif resymau dros y sensitifrwydd hyn yw bod iaith wedi'i chysylltu'n annatod â hunaniaeth unigolyn – ac mae pob un ohonom yn sensitif ynghylch hwnnw! Mae iaith yn gyfrwng mynegiant yn ogystal â bod yn arwydd o hunaniaeth – ar lefel bersonol ac fel modd o uniaethu ag eraill: teulu, cymuned, a grŵp ieithyddol ehangach. Mae iaith yn rhan bwysig o bwy ydym ni a phwy rydyn ni'n uniaethu â nhw, sut rydyn ni'n gweld ein hunain a sut mae eraill yn ein gweld ni. Iaith, yn sylfaenol, yw'r hyn ydyn ni.

Mae nifer wedi honni'n naif nad yw iaith yn ddim mwy nag yn fodd o gyfathrebu. Yn amlwg, un o brif swyddogaethau iaith yw cyfathrebu ond mae hefyd yn hanfodol i sut rydyn ni'n gweld y byd. Rydyn ni'n profi'r byd yn gorfforol, emosiynol ac ysbrydol trwy gyfrwng iaith. A thrwy iaith rydyn ni'n didol a threfnu'r profiadau hynny. Trwy gyfrwng iaith hefyd rydyn ni'n rhannu profiadau ac yn cytuno ystyron ag eraill. Iaith felly yw'r cyfrwng pennaf ar gyfer mynegi ac atgynhyrchu diwylliant. Mae'r iaith rydyn ni'n uniaethu ein hunain â hi, felly, yn un o'r arwyddion diwylliannol pwysicaf rydyn ni'n ei gario. Mae'n ein cysylltu ni â phobl benodol, gwerthoedd penodol, safbwyntiau penodol, gweithgareddau diwylliannol penodol, â ddoe arbennig ac â heddiw arbennig.

Mae hunaniaethau diwylliannol yn rhywbeth mae pob un ohonom yn eu gwerthfawrogi waeth pa iaith rydyn ni'n ei siarad, boed hynny'n ymwybodol neu'n ddiarwybod, am ein bod ni'n gwerthfawrogi pwy ydym ni. Yn yr un modd, mae ieithoedd, fel cyfrwng a mynegiant o'r hunaniaethau diwylliannol hynny, hefyd yn cael eu gwerthfawrogi. Yn gyffredinol, mae gennym yr hawl i gael ein parchu gan eraill – gwerth mae gwaith ieuenctid wedi'i hyrwyddo erioed. Mae hynny hefyd yn golygu parchu ein gwahanol ieithoedd a'n hunaniaethau diwylliannol.

Gall gwerthfawrogi gwerth dwyieithrwydd hwyluso gwell dealltwriaeth o wahaniaethau diwylliannol ac ennyn empathi tuag at grwpiau diwylliannol eraill. Yn yr ystyr hwnnw, gall dwyieithrwydd ddod â gwerth ychwanegol i wasanaeth ieuenctid cynhwysol. Fel y nodir gan y DCGIC, dylai ein hamrywiaeth gael ei ddatlu gan bawb.

2.2 Y sbectrwm sgiliau iaith

Un myth neu gamsyniad y dylai pob un ohonom fod yn ymwybodol ohono o'r cychwyn cyntaf yw'r gorsymleiddio ar iaith a hunaniaeth ddiwylliannol. Yn draddodiadol, disgrifiwyd pobl fel siaradwyr Cymraeg neu bobl ddi-Gymraeg – fel pe bai dwyieithrwydd yn rhywbeth y gellir ei gynnu neu ei ddiffodd, sefyllfa o 'naill ai neu'. Mae'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol wedi gweld nad yw cwestiwn traddodiadol y Cyfrifiad bob deng mlynedd, "A ydych yn medru siarad Cymraeg – ydw neu nac ydw?", o unrhyw gymorth yn hynny o beth. Mae sgiliau iaith a hunaniaeth ddiwylliannol yn llawer mwy cymhleth a chynnil na hynny. O ganlyniad, gofynnodd Cyfrifiad 2001 ychydig mwy o gwestiynau'n ymwneud â phedair agwedd sgiliau iaith – deall, siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg, ac felly cafwyd darlun mwy clir ar amrywiaeth y sgiliau iaith ar draws yr ystod honno.

Adeg Cyfrifiad 2001 roedd 20.8% o boblogaeth Cymru wedi cofrestru eu hunain neu aelodau o'u teulu yn rhai a oedd yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag nododd:

- **661,526 (23.6%)** eu bod yn deall Cymraeg ar lafar;
- **567,152 (20.2%)** eu bod yn gallu darllen Cymraeg;
- **495,519 (17.7%)** eu bod yn gallu ysgrifennu yn y Gymraeg;
- **797,717 (28.4%)** fod ganddynt o leiaf un o'r sgiliau iaith.

Mae iaith ar ei fwyaf elfennol felly'n sgil. Fel pob sgil mae gan bob un ohonom wahanol raddau o allu. Pa mor dda ydych chi am ddweud jôc? Pa mor dda ydych chi am goginio? Pa mor dda ydych chi am yrru car? Yn yr un modd mae sgiliau iaith yn sbectrwm o allu – o ddarparu ymatebion un-sill swrth hyd at draddodi areithiau ysbrydoledig, o ysgrifennu nodyn cyflym i'r dyn llaeth hyd at lunio nofel arobryn. Mae ein sgiliau iaith yn amrywio'n fawr. Mae bod yn rhugl neu'n llythrennog yn

hyfedredd cymharol yn hytrach nag yn nodwedd ddiamedod – mae grwpiau ieithyddol felly'n cynnwys enfys o sgiliau unigol.

Yn yr un modd, nid yw bod yn ddwyieithog yn golygu eich bod yr un mor rhugl yn y ddwy iaith. Mae'n ddigon posib y gellid gosod sgiliau iaith unigolyn mewn gwahanol ieithoedd ar wahanol bwyntiau o'r sbectrwm. Gall unigolion fod yn fwy rhugl mewn un iaith nag yn y llall, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, y testun neu'r pwnc dan sylw.

Pwynt arall i'w gofio yw nad oes gan y graddau o sgiliau iaith unrhyw beth i'w wneud ag agweddau tuag at iaith. Tra mai lleiafrif sylweddol o'r cyhoedd sy'n honni bod ganddynt ryw afael ar y Gymraeg mae ymchwil gan Beaufort Research yn 2000 yn dangos bod gan y mwyafrif helaeth agwedd bositif tuag at y Gymraeg.⁹

- **Cytunodd 89% fod yr iaith Gymraeg yn bwysig i ddiwylliant Cymreig.**
- **Cytunodd 81% ei fod yn bwysig fod plant yn dysgu ei siarad.**
- **Cytunodd 80% fod yr iaith Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru.**
- **Cytunodd 76% fod Cymru yn wlad ddwyieithog.**
- **Dim ond 5% o gyfanswm y sampl a oedd yn gwrthwynebu defnyddio'r Gymraeg.**

Mae'r gefnogaeth gyffredinol honno tuag at y Gymraeg yn cael ei hadlewyrchu gan y cyd-destun polisi cyhoeddus a ddisgrifiwyd yn flaenorol.

2.3 Dewisiadau iaith

Un o brif gyfrifoldebau gweithwyr ieuenctid yw sicrhau eu bod yn dod i adnabod y bobl ifanc dan eu gofal. Mae angen i weithwyr ieuenctid wybod am gefndir teuluol person ifanc, am eu nodweddion personol, eu diddordebau, unrhyw beth a phopeth sy'n gwneud eu perthynas yn gefnogol ac yn adeiladol. Ond faint o weithwyr ieuenctid sy'n

gyfarwydd â phroffil iaith y bobl ifanc dan eu gofal? Pa ieithoedd maent yn eu siarad, â phwy maent yn eu siarad ac o dan ba amgylchiadau?

Os nad ydych yn siarad Cymraeg eich hun gall fod yn anodd i asesu rhuglder person ifanc mewn Cymraeg a'r hyn sy'n well ganddynt ei siarad. Hyd yn oed os ydych yn siaradwr Cymraeg rhugl nid yw'n fater syml. Fodd bynnag, gyda'r Gymraeg yn bwnc craidd mewn ysgolion, dylai fod gan y rhan fwyaf o bobl ifanc rywfaint o wybodaeth o'r Gymraeg waeth pa mor fychan yw hynny.

Un o'r prif wahaniaethau rhwng pobl ddwyieithog a phobl uniaith yw bod gan bobl ddwyieithog ddewis o ba iaith i'w defnyddio. Efallai y byddant yn defnyddio gwahanol ieithoedd at wahanol ddibenion, gyda gwahanol bobl ar wahanol adegau. Mae'n bosib y byddant yn defnyddio Saesneg gartref, Cymraeg yn yr ysgol, Saesneg yn y ganolfan hamdden, y Gymraeg mewn cyfweiliadau ffurfiol, Saesneg yn y siopau a'r Gymraeg a'r Saesneg yn y dafarn leol.

Mae pob math o ffactorau cymdeithasol yn effeithio ar ba iaith mae person dwyieithog yn dewis ei siarad a'u parodrwydd i gysylltu ag iaith arbennig a'i defnyddio. Mae defnydd iaith o fewn y teulu a'r gymuned ehangach yn ffactorau amlwg. Gallai eraill gynnwys:

- **disgwyliadau cymdeithasol i ddefnyddio iaith arbennig;**
- **yr iaith a ddefnyddir fel arfer o fewn lleoliad penodol;**
- **pwysau i gydymffurfio â'ch cyfoedion - canfyddiadau o'r hyn sy'n cŵl neu beidio;**
- **angen i beidio â chael eich eithrio;**
- **angen i beidio â chael eich gweld fel niwsans neu'n un sy'n creu ffwdan;**
- **bod yn fwy hyderus, rhugl neu fynegiannol mewn iaith arbennig;**
- **bod dan anfantais o ddewis iaith arbennig;**
- **ansicrwydd ynglŷn â'r cywair iaith a**

ddisgwylir ganddynt – ffurfiol neu anffurfiol;

- **awydd i uniaethu â grŵp iaith arbennig, neu i'r gwrthwyneb;**
- **awydd i ddatgysylltu eu hunain wrth grŵp iaith arbennig.**

Mae angen i weithwyr ieuencid fod yn ymwybodol o gymhlethdod sgiliau iaith, dewisiadau iaith a materion hunaniaeth. Mae'n bwysig cofio, waeth beth fo'u dewisiadau iaith o fewn y clwb ieuencid, waeth pa ffactorau sy'n dylanwadu ar y dewis hwnnw, dylid parchu pobl ddwyieithog am eu dwyieithrwydd a dylid hwyluso'r dwyieithrwydd hwnnw.

2.4 Iaith a chyfle cyfartal

Mae gwaith ieuencid hefyd yn ymwneud ag ymrymuso pobl ifanc. Mae pob cyd-destun cymdeithasol yn cynnwys perthynas o rym. Ceir grwpiau grymus o fewn cymdeithas a gall fod yna unigolion grymus o fewn grwpiau. Felly hefyd mewn perthynas â ieithoedd. Ceir ieithoedd grymus y rhoddir llawer o fri arnynt ac sy'n mwynhau statws uchel ar draws y byd, gyda nifer helaeth o siaradwyr a nawdd gan y wladwriaeth; a cheir hefyd ieithoedd llai grymus, â llai o siaradwyr, statws is, hanes o ddefnydd cyfyngedig, ac a ystyrir yn isel eu bri gan siaradwyr yr iaith a'r rhai nad ydynt yn ei siarad fel ei gilydd.

Mae'r grym a'r statws a'r bri a roddir ar ieithoedd unigol yn cael effaith ar ganfyddiadau ac ymddygiad unigolion a grwpiau – ein hunan-ganfyddiad yn ogystal â chanfyddiad eraill. Oherwydd y gwrthdaro grym hwn rhwng 'iaith fwyafriol' a 'iaith lai ei defnydd', anaml iawn mae sefyllfaoedd dwyieithog yn rhai cyfartal. Mewn sefyllfaoedd dwyieithog, bydd aelodau o'r gymuned iaith lai grymus yn amlach na pheidio yn addasu eu hymddygiad mewn ymgais i oresgyn y berthynas o rym rhwng y ddwy iaith (a thrwy hynny y berthynas o rym rhyngddyn nhw ac aelodau o'r grŵp iaith mwy grymus). Mae addasu ymddygiad yn y modd hwn yn haws ei gyflawni pan

fo siaradwyr yr 'iaith lai ei defnydd' hefyd yn rhugl yn yr 'iaith fwyafrifol' fel yng Nghymru.

Mae'n rhaid i weithwyr ieuenctid sy'n ceisio darparu cyfle cyfartal i bawb fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i unioni'r berthynas o rym wrth ddelio â grwpiau o wahanol gymunedau iaith mewn sefyllfaoedd dwyieithog. Efallai y bydd y grŵp dwyieithog o fewn y clwb ieuenctid yn dewis defnyddio'r Saesneg os yw hynny'n cael ei ystyried yn norm o fewn y grŵp, ond nid yw'n golygu y byddent yn dewis defnyddio Saesneg ar bob achlysur o gael cyfleoedd eraill wedi'u cynnig mewn modd sensitif. Mae angen hwyluso dwyieithrwydd ystyrion ac mae angen galluogi pobl ifanc ddwyieithog, mewn ffordd deg, sensitif a rhagweithiol i wneud y dewisiadau iaith hynny.

Y cysylltiadau grym yma hefyd sydd wrth wraidd materion cyfle cyfartal eraill megis darpariaeth i ferched ifanc, pobl ifanc anabl neu bobl ifanc ddu. Mae herio'r gorthrymau hynny yn un o swyddogaethau canolog gwaith ieuenctid. Yng Nghymru, mae dwyieithrwydd yn ganolog i'r agenda wrth-ormesol a chyfle cyfartal.

2.5 Creu amgylchedd sy'n galluogi

Wrth ddatblygu arfer gwaith ieuenctid dwyieithog effeithiol, dylai sefydliadau ieuenctid a gweithwyr ieuenctid ymwneud yn bennaf â chreu amgylchedd galluogol.

Mae gwaith ieuenctid ynddo'i hunan yn broses sy'n galluogi. Dylai gweithwyr ieuenctid ymwneud â galluogi pobl ifanc i ddysgu amdanynt eu hunain ac am eraill; eu galluogi i gyfranogi mewn ystod helaeth o brofiadau dysgu; eu galluogi i ddatblygu fel unigolion ac fel aelodau o grwpiau a chymunedau; galluogi pobl ifanc i gyfranogi wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel a'u hymrymuso i weithredu ar eu pryderon. Mae gwaith ieuenctid, fel y gwelsom eisoes, hefyd yn ymwneud â galluogi ieuenctid i fynegi eu hunain mewn iaith a diwylliant o'u dewis.

Er mwyn i ieuenctid allu cyfranogi, cyfathrebu, a mynegi eu hunain yn llawn mae angen eu galluogi i gyfranogi'n rhydd yn eu hiaith eu hunain. Dylai darparwyr gwaith ieuenctid fod yn gyson ymwybodol o'u dyletswydd i ddarparu amgylchedd ieithyddol galluogol, anfygythiol ac anfeiriadol.

Yn nhermau defnydd iaith yng Nghymru, gellir disgrifio amodau amgylchedd dwyieithog galluogol o'r fath fel man:

- **Ile mae'r ddwy iaith yn weladwy gyfartal;**
- **Ile mae'r ddwy iaith yn cael eu defnyddio yn swyddogol ac yn gyhoeddus;**
- **Ile y gellir defnyddio'r ddwy iaith yn 'ddiogel' (heb ofni bygythiad, gwawd na gwrthodiad);**
- **Ile y trefnir gweithgareddau ymarferol yn y fath fodd ag i hwyluso ac annog dewis iaith, a**
- **Ile mae amrywiaeth hunaniaethau yn cael ei hyrwyddo a'i dathlu.**

Mae gweddill y llawlyfr hwn yn disgrifio mesurau ymarferol i ddatblygu a meithrin amgylchedd galluogol o'r fath.

Mae cyfranogaeth yn elfen arall o waith ieuenctid effeithiol. Mae'r DCGIC yn nodi bod gwaith ieuenctid yn ymwneud â chyfleoedd lle mae pobl ifanc 'yn cael eu hannog i rannu cyfrifoldeb ac i ddod yn bartneriaid cydradd, sy'n sylfaenol i'r prosesau dysgu a'r strwythurau penderfynu'¹⁰. Tra bod y llawlyfr hwn yn cyfeirio'n bennaf at agweddau trefniadol a rôl y gweithwyr ieuenctid, ni ddylai rôl y bobl ifanc eu hunain mewn cynllunio a gwireddu darpariaeth ieuenctid ddwyieithog gael ei anwybyddu. Mae eu sgiliau iaith, eu hagweddau cadarnhaol a'u dyheadau ynghylch dwyieithrwydd yn rhinweddau y dylid eu defnyddio i'r graddau helaethaf er mwyn hwyluso darpariaeth gwaith ieuenctid dwyieithog.

3.0 Darpariaeth Ddwyeithog

Beth ydyn ni'n ei olygu wrth ddarpariaeth gwaith ieuencid dwyieithog? Yn ddelfrydol, dylai fod yn arfer sy'n rhoi parch a statws cyfartal i ddwy brif iaith Cymru, lle mae'r ddwy iaith yn cael eu gweld, eu clywed a'u defnyddio mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol, a lle mae aelodau neu gyfranogwyr yn cael hawl, anogaeth a chefnogaeth i gyfranogi ym mha bynnag iaith y dymunant. Mae ethos ac awyrgylch sy'n annog parch at amrywiaeth yn hanfodol os ydym yn dymuno cynnig darpariaeth ddwyieithog go iawn. Heb gael lefel sylfaenol o barch i angori'r cyfan, mae perygl gwirioneddol i unrhyw gamau eraill fod yn arwynebol ac yn aneffeithiol.

Wrth ddatblygu arfer dwyieithog effeithiol o fewn y gwasanaeth ieuencid gallwn edrych ar dair agwedd benodol:

- yr amgylchedd gwaith ieuencid;
- y gweithwyr ieuencid a'u sgiliau ieuencid, ac
- y modd y trefnir gweithgareddau.

Cyfeiriwn at bob agwedd yn ei dro, gan ddarparu cyngor syml ac ymarferol ar bob agwedd.

3.1 Yr amgylchedd gwaith ieuencid

Mae lleoliadau gwaith ieuencid yn niferus ac yn amrywiol. Mae'n bosib y byddant yn cynnwys ystod o leoliadau anffurfiol, prosiectau estyn allan, cyfleusterau preswyl, yn ogystal â'r clybiau, neuaddau pentref a chanolfannau ieuencid mwy traddodiadol. Mae pyllau nofio a chanolfannau

hamdden hefyd yn lleoliadau pwysig i bobl ifanc. Er ein bod yn sôn am leoliadau penodol yn y testun o dro i dro, bydd y sylwadau canlynol yn berthnasol i bob lleoliad gwaith ieuencid. Dylai darllenwyr drosi'r egwyddorion sydd wrth wraidd y sylwadau i'w hamgylchiadau penodol nhw.

Os ydych eisiau i'ch canolfan neu brosiect ieuencid gael polisi agored o safbwynt defnydd iaith, mae creu amgylchedd galluogol priodol yn hanfodol. Mae'n bosib y bydd polisi agored yn cael ei lesteirio gan y ffaith nad yw iaith ddewisol defnyddwyr posib yn weladwy nac yn glywadwy o fewn y ganolfan. Gall aelodau rheolaidd, hyd yn oed, deimlo fel petaent yn cael eu dieithrio neu eu diystyru ar adegau. Mae'n debygol iawn fod canolfan neu brosiect nad yw'n cydnabod eich dewis iaith yn llai parod i'ch cydnabod a'ch parchu chi fel siaradwr yr iaith honno.

Bydd gennych chi, wedyn, fel person dwyieithog, ddau ddewis - naill ai addasu i'r sefyllfa a dewis defnyddio'r iaith amlwg (er nad ydych yn gwbl fodlon â'r sefyllfa) neu adael a mynd i rywle arall. Mae ymchwil yn dangos bod nifer fawr o siaradwyr Cymraeg ifanc yn penderfynu ar yr ail ddewis. Mewn achosion o'r fath gall defnyddio'r Gymraeg fod yn gyfle gwyh i gynyddu'ch aelodaeth!

Dylai polisi agored hyrwyddo ethos o gynnwys pawb. Rhaid cofio nad yw dwyieithrwydd yn gwahardd. Nid yw dwyieithrwydd yn rhwystro nac yn anfanteisio defnyddwyr Saesneg mewn unrhyw ffordd. Mae dwyieithrwydd yn gynhwysol.

Os yw'r amgylchedd dwyieithog, felly, yn hanfodol ar gyfer yr arfer cynhwysol – sut mae mynd ati?

3.1.1 Enw

Mae enw eich clwb yn rhan bwysig o'i hunaniaeth. Dyma'r faner yr ydych yn ei chwifio at ieuencid eich ardal er mwyn tynnu eu sylw a gwneud eich hun yn hysbys. Mae'r negeseuon sy'n cael eu cyfleu gan yr enw neu'r teitl swyddogol yn gallu cynnwys a denu pobl ifanc, neu'n gallu eu cau allan a'u heithrio.

Mae'r rhan fwyaf o glybiau ieuencid, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, yn cael eu henwi ar ôl y gymuned maen nhw'n ei gwasanaethu. Os mai dyma'r sefyllfa yn eich achos chi, yna mae defnyddio'r disgrifiad 'Clwb Ieuencid' yn ogystal â 'Youth Club' yn ffordd hawdd o sicrhau enw dwyieithog. Bydd confensiynau gramadegol yn golygu'n aml fod y Gymraeg i'w gosod gyntaf, a hynny'n dynodi agwedd gadarnhaol bellach at y Gymraeg, e.e.:



Yn achos cymunedau â chanddynt enwau gwahanol yn y Gymraeg a'r Saesneg, bydd blaenoriaeth fel arfer yn adlewyrchu cyd-destunau lleol, e.e.



neu



Yn achos enwau mwy dychmygus, gellir naill ai eu cyfieithu neu fabwysiadu un enw dwyieithog.



neu



Ystyriwch ba negeseuon ieithyddol sy'n cael eu cyfleu gan eich enw presennol ac ystyriwch newidiadau os oes angen.

3.1.2 Arwyddion

Mae arwyddion hefyd yn rhan bwysig o amgylchedd eich clwb ieuencid. Mae arwyddion yn cyfleu negeseuon amlwg ynglŷn ag iaith ac agwedd y clwb at ddwyieithrwydd. Gall arwyddion dwyieithog agor drysau neu eu cau'n glep.

Gall arwyddion uniaith Saesneg gyfleu'r argraff ganlynol:



(Aros mas, was!
Stay outside, pal!)

Mae arwyddion dwyieithog yn dweud:



(Mae'n ddiogel - it's quite safe!)

Os yw eich clwb ieuencid yn nwylo eich awdurdod lleol, yna dylai pob arwydd fod yn ddwyieithog yn unol â **Chynllun Iaith Gymraeg** yr awdurdod. Serch hynny, os ydych yn berchen ar eich adeilad eich hunan ystyriwch ba arwyddion sydd bwysicaf, pa arwyddion sydd angen eu newid beth bynnag, ac yn raddol newidiwch hwy â fersiynau dwyieithog dros amser fel mae'r gyllideb yn caniatáu. Peidiwch â chanolbwyntio ar yr arwyddion parhaol yn unig. Mae'r un egwyddorion yn dal dŵr ar gyfer arwyddion dros dro, ac anffurfiol, e.e.:



A negeseuon dros dro yn yr un modd:

**Rhowch eich enwau yma i gadw lle ar y
bws dydd Sadwrn:
Write your names below to ensure a
seat on the bus on Saturday:**

Os nad yw'r adeilad yn eich rheolaeth, beth am esbonio'r sefyllfa i'r perchennog a gofyn iddo ystyried arwyddion dwyieithog. Mae'n bosib y byddwch yn barod i ystyried symud eich clwb neu brosiect i adeilad arall ag iddo arwyddion dwyieithog hyd yn oed.

Blaenoriaeth ieithyddol ar arwyddion, h.y. mae pennu'r iaith sydd i ymddangos gyntaf ar arwydd fel arfer yn dibynnu ar y cyd-destun lleol. Serch hynny, rheol sy'n cael ei derbyn yn gyffredinol yw y dylid rhoi blaenoriaeth i'r iaith lai ei defnydd er mwyn rhoi lle amlycach iddi yn hytrach na chadarnhau ei statws cyffredinol is.

Sicrhewch fod arwyddion yn cael eu cyfieithu'n gywir. **Peidiwch byth ag ymddiried mewn peiriannau cyfieithu ar-lein honedig.** Ar y cyfan mae'r rhain yn gwbl aneffeithiol ac anghywir, gydag enghreifftiau niferus o wallau sylfaenol a chyson yn digwydd. Mae cywiro arwyddion ar ôl i rywbeth gael ei gam-gyfieithu yn gallu bod yn gostus, ac mae gadael cyfieithiad anghywir heb ei gywiro yn gallu bod yn niweidiol iawn o ran y negeseuon sy'n cael eu cyfleu. Er bod camgyfieithiadau yn gallu achosi digrifwch, maen nhw hefyd yn gallu cyfleu'r neges i siaradwyr Cymraeg fod eu hiaith (ac felly hwy eu hunain) yn israddol ac yn annheilwng o sylw manwl. Mae'n amlwg nad yw hyn yn neges y byddai sefydliad dwyieithog blaengar yn dymuno'i chyfleu. At hynny, gall cyfieithiadau anghywir ag iddynt elfen ddigri beri i sefydliad ymddangos braidd yn wirion, e.e.

- “**Blwyddyn Cadfridog yn Cwrdd**” (yn hytrach na “**Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol**”);
- “**Galwch heb benodiad**” (yn hytrach na “**Nid oes angen gwneud apwyntiad**”);
- “**Croeso i Baw**” (yn hytrach na “**Croeso i Bawb**”).

I gyfieithu arwyddion a negeseuon byr yn rhad ac am ddim, ac yn gywir, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cynnig gwasanaeth **Llinell Gyswllt â'r Gymraeg**. Trwy ymweld â www.llinellgyswllt.co.uk drwy ffonio 0845 607 6070 neu drwy anfon neges e-bost at cyswllt@bwrdd-yr-iaith.org.uk yn ystod oriau swyddfa o ddydd Llun i ddydd Gwener, mae modd cyfieithu hyd at 30 gair yn rhad ac am ddim.

Bydd rhai o'r arwyddion a'r sticeri yn eich adeilad yn **arwyddion gwybodaeth** y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â safonau Ewropeaidd. Gellir cael gafael ar gatalog arwyddion dwyieithog gan *Think Signs* (www.bilingualsigns.co.uk).



http!



3.1.3 Llenyddiaeth swyddogol

Mae'n siwr y bydd eich sefydliad yn cynhyrchu peth deunydd swyddogol yn ystod y flwyddyn – cardiau aelodaeth, pamffled y clwb, taflen wybodaeth, rhaglen weithgareddau, llythyrau at rieni a gwarcheidwaid, ac ati.

Os nad ydych yn cynhyrchu llenyddiaeth ddwyieithog ar hyn o bryd, ystyriwch yr hyn y gallwch ei wneud yn y tymor byr, e.e. sicrhau fod y **cerdyn aelodaeth neu raglen y tymor** yn ddwyieithog. Ystyriwch yr ymateb a phenderfynwch beth arall y gellid ei wneud yn ddwyieithog yn y dyfodol.

Gall **hysbysiadau a hysbysfyrddau** fod yn ffordd bwysig i'ch clwb rannu gwybodaeth ynglŷn â thimau chwaraeon, digwyddiadau'r clwb, triapiau, ac ati. Gallai'r pennawd – *Hysbysfwrdd/Noticeboard* – a'r hysbysiadau amrywiol fod yn ddwyieithog heb fawr iawn o drafferth. Nid oes yn rhaid i gyfieithu fod yn ailadroddus nac yn gostus – unwaith i chi gynhyrchu taflen tîm, poster disgo neu ffurflen ganiatâd rhieni yn ddwyieithog ni fyddant yn newid rhyw lawer dros amser.

Bydd gan y rhan fwyaf o ganolfannau amryw o arwyddion a hysbysiadau eraill – oriau agor, hysbysiadau Iechyd a Diogelwch, polisiâu ysmegu, hysbysiadau cyfrinachedd, polisi ymddygiad, ac ati. Gallai'r rhain fod yn ddwyieithog hefyd.

Mae'r **Llinell Gyswilt â'r Gymraeg** yn ddelfrydol ar gyfer mân gyfieithu (gweler uchod). Am gyfieithiadau sy'n fwy na 30 gair, gofynnwch am gyngor gan uned iaith/uned gyfieithu eich awdurdod lleol neu cysylltwch â'ch Menter Iaith leol. Mae Mentrau Iaith yn y mwyafrif o siroedd Cymru, ac mae nifer ohonynt yn cynnig gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig a/neu gyfieithu ar y pryd. Fel arfer, mae'r gost i fudiadau cymunedol yn cael ei ostwng yn sylweddol. Bydd eich Menter Iaith leol yn gallu rhoi cyngor i chi ynghylch gwasanaethau

cyfieithu. Gellir gweld gwefan ganolog y Mentrau Iaith ar www.mentrau-iaith.com, ac mae'n eich galluogi i ddewis eich Menter Iaith leol. Byddai gofyn i'r bobl ifanc eu hunain gyfieithu deunydd priodol a chael unigolyn proffesiynol cymwys i fwrw golwg drosto yn effeithiol ac yn gydnaws ag arfer gwaith ieuenctid da. Mae'r **Llinell Gyswilt â'r Gymraeg** yn prawfddarllen / golygu hyd at 75 gair yn rhad ac am ddim.

Mae'n werth nodi hefyd y gall Bwrdd yr Iaith Gymraeg gynnig grantiau bychain i fudiadau gwirfoddol i'w cynorthwyo i gynhyrchu deunydd dwyieithog. Gellid cyflwyno ceisiadau i'r Cynllun Grantiau Hyrwyddo ar unrhyw adeg. Am fanylion pellach, ewch i wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg www.byig-wlb.org.uk

3.1.4 Yr amgylchedd anffurfiol

Yn ogystal â sicrhau statws cyfartal i arwyddion a dogfennaeth swyddogol, gallech hefyd ystyried agweddau mwy anffurfiol ar amgylchedd y clwb. Mae'n debygol y bydd gan y rhain fwy o ddylanwad ar ganfyddiad dwyieithrwydd y ganolfan:

Posterï – mae nifer o asiantaethau yn darparu posterï a thafenni ymgyrchu dwyieithog ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd, y trydydd byd, yr amgylchedd ac ati. Gellid eu harddangos a'u dosbarthu yn y clwb.

Mae gan gyrff megis Bwrdd yr Iaith Gymraeg, S4C, Menter a Busnes, Cyngor Llyfrau Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru, ac ati, bosterï eithaf deniadol sy'n cyfleu tirweddau Cymru, bwydydd Cymru, sêr y byd rygbi, ac ati. Hyd yn oed os nad ydynt yn ddwyieithog, mae posterï o'r fath yn cyfleu agweddau o fywyd a diwylliant Cymru a gallant gyflawni rôl gwricwlaidd mewn ystyr ehangach.

Graffiti – os oes gennych wal graffiti yn y clwb, beth am osod rhai sloganau Cymreig a Chymraeg arni er mwyn rhoi cychwyn ar bethau. Mae'n

bosib y cewch eich synnu â'r hyn a osodir yno yn Gymraeg, neu efallai y bydd yn amlygu tensiynau ynghylch dwyieithrwydd sydd angen eu datrys.

Cerddoriaeth – mae gan nifer o glybiau ieuentid chwaraewr CD neu mp3 at ddefnydd yr aelodau. Ceisiwch sicrhau fod amrywiaeth o fandiau cyfrwng Cymraeg yn ogystal â bandiau cyfrwng Saesneg yno. Mae nifer o fandiau ac unigolion amlwg yng Nghymru yn recordio ac yn perfformio yn y ddwy iaith heddiw – Super Furry Animals, Cerys Mathews, Duffy, a'r Texas Radio Band, ac mae nifer o fandiau eraill nad ydynt yn canu yn Gymraeg yn arddel eu hunaniaeth Gymreig â balchder – Stereophonics, Manic Street Preachers ac ati.

www – os oes gennych fynediad i'r rhyngwrld, beth am farcio rhai dalen-nodau i safleoedd cyfrwng Cymraeg fel safle BBC Cymru'r Byd, gwefan C2 Radio Cymru, golwg360, yr Eisteddfod Genedlaethol, S4C, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Maes-e.com (sgwrsfan Cymraeg), Draig Ffyni, Blogiadur.com (hafan blogiau Cymraeg a Chymreig), curiad.org (cerddoriaeth), Mentrau Iaith Lleol, a sefydliadau ieuentid eraill megis Urdd Gobaith Cymru, Cynllun Gwobr Dug Caeredin a Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru.

Mae gan rai grwpiau ieuentid eu tudalennau eu hunain ar y we, naill ai'n annibynnol neu'n rhan o wefan eu sefydliadau. Beth am sicrhau fod y wefan yn ddwyieithog hefyd.

Technoleg gwybodaeth a chyfrifiaduron – mae modd gosod rhyngwyneb Cymraeg ar systemau gweithredu y rhan fwyaf o gyfrifiaduron trwy lawrlwytho meddalwedd o wefan Microsoft neu wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'n bosib newid yn ôl ac ymlaen o'r Gymraeg i'r Saesneg gan ddiwynnu ar ddewis iaith yr unigolyn sy'n defnyddio'r cyfrifiadur ar y pryd. Mae hwn yn ffordd sy'n rhad ac am ddim ac effeithiol o sicrhau dewis iaith ym maes technoleg gwybodaeth a chyfrifiaduron personol yn eich clwb ieuentid. Os ydych yn chwilio am feddalwedd swyddfa Cymraeg

sy'n rhad ac am ddim, mae gwefan benodol ar gael lle y gallwch chi lawrlwytho'r feddalwedd i'ch cyfrifiadur www.agored.com

Cylchgronau – os oes gennych lyfrgell neu ardal goffi â deunydd darllen, beth am danysgrifio i gylchgronau cyfrwng Cymraeg megis *Golwg*, *Y Cymro*, *Lingo* (cylchgrawn ar gyfer dysgwyr Cymraeg) ac amryw o gyhoeddiadau a ffanlyfrau eraill yn ogystal â thanysgrifio i gyhoeddiadau cyfrwng Saesneg. Mae modd tanysgrifio i rai o'r cyhoeddiadau hyn ar y we (e.e. *Golwg*).

Gwybodaeth – os ydych yn cynnal canolfan galw-i-mewn, gwasanaeth gwybodaeth i bobl ifanc, gwasanaeth cyngori neu'n cynnal sesiynau testunol yn y clwb, dylech sicrhau fod y taflenni gwybodaeth yn ddwyieithog. Mae'r rhan fwyaf o asiantaethau cenedlaethol a rhanbarthol erbyn hyn yn sicrhau eu bod yn cyhoeddi deunydd dwyieithog ar eich cyfer. At hynny, byddwch yn rhagweithiol wrth ddefnyddio'r deunydd. Dylech ddarganfod a yw'r unigolyn yr ydych yn delio ag ef yn ddwyieithog a rhowch fersiwn ddwyieithog taflen iddo neu un Saesneg ac un Gymraeg os yw'r taflenni ar wahân. Gallan nhw ddewis pa iaith y maent yn dymuno'i darllen dros eu hunain a pha fersiwn i'w roi i eraill, megis rhieni neu ffrindiau. Wrth wneud hyn rydych wedi parchu eu dewis, ac nid ydych wedi gwneud y penderfyniad drostynt.

3.1.5 Cyhoeddiadau

Mae cael amgylchedd dwyieithog gweledol yn hanfodol, ond mae cael amgylchedd lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg i'w clywed hefyd yn cryfhau'r neges fod dwyieithrwydd yn OK. Os yw gweithwyr ieuentid yn y clwb yn ddwyieithog, y mwyaf yw'r defnydd o'r Gymraeg y mwyaf tebygol yw'r aelodau o ddefnyddio'r Gymraeg, gan eu bod yn gweld ei bod yn cael ei 'chaniatáu'.

Byddwn yn trafod perthynas anffurfiol rhwng gweithiwr ieuencid ac aelod o'r clwb yn yr adran nesaf. Serch hynny, yng nghyd-destun creu amgylchedd sy'n galluogi, gall iaith cyhoeddiadau cyffredinol fod yn bwysig. Mae rhoi cyfarwyddiadau neu wybodaeth yn ddwyieithog yn rhoi awdurdod i'r ddwy iaith.

Ni fydd gan bob grŵp ieuencid sydd ag aelodau dwyieithog weithwyr ieuencid dwyieithog. O gofio'r hyn a ddywedwyd gennym yn gynharach ynglŷn â gweld iaith fel sbectwm, bydd y rhan fwyaf o weithwyr ieuencid, gyda chymorth a chefnogaeth, yn gallu codi geiriau allweddol a chymalau i'w defnyddio o bryd i'w gilydd. Gall negeseuon dwyieithog fod yn llawer mwy pwerus os ydynt yn cael eu cyflwyno gan ffynhonnell annhebygol.

3.2 Gweithwyr ieuencid a'u sgiliau ieithyddol

Byddai cael staff dwyieithog yn amlwg yn ei gwneud yn haws i sicrhau ethos dwyieithog yn y clwb ieuencid. Serch hynny, nid yw'r rhan fwyaf o glybiau yn y sefyllfa honno. Gan y bydd sgiliau dwyieithog gweithiwr ieuencid unigol yn dylanwadu ar y berthynas fydd ganddo ag ieuencid dwyieithog, byddwn yn ymdrin â'u perthynas ag ieuencid o dri phersbectif:

- **gweithiwr ieuencid sy'n rhugl ddwyieithog;**
- **gweithiwr ieuencid â 'pheth Cymraeg';**
- **gweithiwr ieuencid heb unrhyw Gymraeg.**

Wrth 'rhugl ddwyieithog' rydym yn golygu rhywun sy'n gallu sgwrsio ag ieuencid mewn Cymraeg syml, tafodieithol, bob dydd. Nid oes angen i chi fedru annerch Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru! Byddai gweithiwr ieuencid â 'pheth Cymraeg' yn unigolyn â chanddo beth gwybodaeth o'r Gymraeg, rhywfaint o allu i sgwrsio ond a fyddai'n dewis Saesneg fel iaith, yn arferol.

Prin iawn yw'r bobl heb unrhyw Gymraeg o gwbl oherwydd bod gan y rhan fwyaf o bobl rhyw lefel o sgiliau iaith Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn llwyddo i ddweud "bore da", neu "hwyl", felly realiti'r sefyllfa yw bod mwyafrif helaeth y gweithwyr ieuencid yn mynd i fod naill ai'n rhugl, neu â 'pheth Cymraeg'. Y peth pwysig yw bod y gweithwyr ieuencid hynny'n ddigon hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt gyda balchder, ac mewn dull cadarnhaol ac ymrymusol.

Yr hyn sy'n hanfodol bwysig i'w sylweddoli, fodd bynnag, yw y gall **pob gweithiwr ieuencid** gyfrannu'n adeiladol ac yn sylweddol i arfer dwyieithog. Mae dwyieithrwydd yn perthyn i bob un ohonom yng Nghymru, pa bynnag ieithoedd yr ydym yn eu siarad neu beidio.

3.2.1 Gweithwyr ieuencid rhugl ddwyieithog

Gall gweithwyr rhugl ddwyieithog gyflawni nifer o swyddogaethau allweddol wrth gynnal ethos dwyieithog mewn clwb, prosiect neu leoliad.


Byddant yn aml yn gallu cyfrannu at y lefel o Gymraeg a ddefnyddir mewn **rôl gyhoeddus neu swyddogol** - gwneud cyhoeddiadau, rhoi cyfarwyddiadau, dyfarnu gêmâu neu gyflwyno gwybodaeth, fel y nodwyd uchod.

Gallant hefyd wneud cyfraniad gwerthfawr mewn **dull anffurfiol** trwy ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio'n gyffredinol ag aelodau o'r clwb – cychwyn ac ymateb i sgwrsiau yn y naill iaith a'r llall a sicrhau nad yw'r *lingua franca* yn monopoleiddio sgwrsiau. Mae angen i'r gweithiwr ieuencid dwyieithog fod yn rhagweithiol yn ei ddefnydd o'r iaith er mwyn sicrhau fod dewisiadau ieithyddol yn parhau'n agored ac yn ymarferol.

Yn drydydd, mae ganddynt rôl mewn **perthynas bersonol**. Yn gyffredinol, mae'n llawer haws ffurfio perthynas â rhywun â'r un famiaith. Mae'n siŵr y

byddai ieuencid Cymraeg eu hiaith yn fwy tueddol o ymddiried mewn gweithiwr ieuencid Cymraeg ei iaith, ac yn sicr, byddent yn ei chael yn haws weithiau i fynegi materion a phryderon personol yn y Gymraeg.

Mewn sefyllfaoedd lle defnyddid y Gymraeg fel prif iaith mewn clwb agored, byddai angen i weithwyr ieuencid Cymraeg fod yn ymwybodol o anghenion ieithyddol pobl ifanc nad ydynt mor rhugl ag eraill, gan ddarparu ar eu cyfer a'u cynnwys yn niwylliant dwyieithog y clwb mewn modd sensitif.



3.2.2 Gweithwyr ieuenctid â ‘pheth Cymraeg’

Mae oedolion yn tueddu i danamcanu eu gallu i siarad Cymraeg. Gall hyn yn aml fod oherwydd swildod, diffyg ymarfer, profiadau gwael yn y gorffennol, diffyg hyder a lluo o resymau eraill.

Fodd bynnag, gall gweithwyr ieuenctid sy'n ystyried bod ganddynt “peth Cymraeg” gyfrannu'n gadarnhaol i ddwyieithrwydd mewn clybiau ieuenctid trwy ddiddymu'r myth ‘naill ai/neu’ y soniwyd amdano'n gynharach. Nid yw'r gallu i siarad Cymraeg yn fater du a gwyn – mae ystod eang o allu yn gorwedd rhwng y ddau begwn. Pan fydd unigolion sy'n cael eu hystyried yn siaradwyr Saesneg uniaith yn defnyddio'r Gymraeg, pa mor gyfyng bynnag yw'r defnydd hwnnw, maent yn dechrau chwalu'r myth a chynorthwyo pobl ifanc i sylweddoli'r ystod ieithyddol sydd ynghlwm wrth fod yn Gymry.

Wrth ddelio ag ieuenctid sy'n siarad Cymraeg, beth am ystyried defnyddio cyfarchion Cymraeg megis *Sut mae? Hwyl! Da iawn, Nos da, Diolch?* Gall hyn fynd ymhell o safbwynt sefydlu perthynas. Mae siaradwyr Cymraeg, fel pawb arall, yn ymateb yn gadarnhaol i gydnabyddiaeth a byddent yn gwerthfawrogi ymdrechion o'r fath yn fawr.

Gydag amser, mae'n siŵr y bydd yr hyder yn cynyddu a bydd ymarfer yn cyfoethogi geirfa, ieithwedd ac ynganiad ymhellach, gan gyfrannu yn ei dro at fwy o hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol. Gall cynyddu eich sgiliau Cymraeg fod yn rhan ddilys o'ch datblygiad proffesiynol. Mae cyfleoedd ar gael mewn Canolfannau Cymraeg i Oedolion ar draws Cymru i wella eich sgiliau Cymraeg. Mae eu manylion wedi'u cynnwys yn yr adran Adnoddau a Chysylltiadau isod.

Eto, nid yw sgiliau ieithyddol yn ymwneud â siarad yn unig. Mae deall iaith yn sgil ynddo'i hunan. Mae llawer mwy o bobl yn deall Cymraeg nag

sy'n ei siarad. Dylai gweithwyr ieuenctid sy'n deall Cymraeg ddefnyddio'u sgil i hwyluso ac annog eraill i siarad Cymraeg. Mae cael sgwrs mewn dwy iaith lle mae pob grŵp yn deall ei gilydd, ond eu bod yn gallu cyfrannu yn eu hiaith ddewisol, fel petai'n cynnig yr eithaf mewn dwyieithrwydd.

3.2.3 Gweithwyr ieuenctid heb unrhyw Gymraeg

Hyd yn oed os nad oes gennych unrhyw Gymraeg gallwch barhau i gyfrannu at greu amgylchedd dwyieithog. Mewn gwirionedd, mae eich rôl yn ganolog.

Agweddau ac ofnau pobl yw'r rhwystr mwyaf i ddwyieithrwydd cadarnhaol. Er mwyn i ddwyieithrwydd weithio mewn ffordd ystyrlon, mae angen iddo gael ei seilio ar ymddiriedaeth gytûn ac mae agweddau gweithwyr ieuenctid heb unrhyw Gymraeg yn hanfodol bwysig os yw diwylliant dwyieithog agored i'w feithrin yn llwyddiannus.

Mae rhan o feithrin yr agweddau cadarnhaol hyn yn golygu bod yn ymwybodol o faterion ieithyddol fel y rhai a amlinellir yn yr adran flaenorol – iaith a hunaniaeth, rhesymau dros ddewisiadau ieithyddol, ac ati. Fel gyda phob mater cyfle cyfartal mae'n ymwneud hefyd â herio rhagfarn a hyrwyddo arfer da. Mae gweithwyr ieuenctid i raddau helaeth yn gosod naws foisol a diwyllianol eu grwpiau trwy eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain. Bydd agwedd gadarnhaol tuag at ddwyieithrwydd o'ch rhan chi yn gosod sylfaen dda ar gyfer llwyddiant. Eto, gellir trefnu cyfleoedd datblygu proffesiynol i hwyluso agweddau cadarnhaol ymysg gweithwyr ieuenctid, e.e. hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.

Dylai'r egwyddor fod yr iaith Gymraeg yn eiddo i bawb yng Nghymru – ac nid i'r siaradwyr Cymraeg yn unig – fod yn ganolog i'ch gwaith ieuenctid. Mae gan y mwyafrif llethol o bobl Cymru ryw gyswllt â'r Gymraeg – naill ai yn eu teulu, trwy ffrindiau a chydabod, neu yn y gymuned. Mae gan bawb

ohonom rywfaint o berchenogaeth arni, hyd yn oed os ydyw mor arwynebol â chael cyfeiriad Cymraeg. Yr hyn sy'n sicr, er mwyn byw mewn Cymru ddeinamig a chadarnhaol, mae angen i bawb berchenogi dwyieithrwydd.

3.3 Trefnu gweithgareddau dwyieithog

Mae trefnu digwyddiadau pwrpasol yn rhan ganolog o ddarpariaeth y gwasanaeth ieuencid – boed hwnnw ar lefel clwb, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. Gall trefnu digwyddiadau fod yn ben tost mewn un iaith, heb sôn am ddwy. Serch hynny, os ydym i ddarparu gwasanaeth ieuencid dwyieithog, mae trefnu digwyddiadau dwyieithog llwyddiannus yn allweddol. Beth felly ddylwn ni gadw mewn cof o ran iaith wrth drefnu ein digwyddiadau? Un o'r egwyddorion sylfaenol, cyffredinol dylid ei gweithredu bob amser yw ystyried y ddwy iaith ar ddechrau unrhyw ddigwyddiad, ymgyrch neu brosiect. Does dim diben gwneud popeth mewn un iaith, gan droi at yr iaith arall ar ddiwedd y broses greadigol fel ôl-nodyn. Yr unig ffordd o greu digwyddiad neu achlysur sy'n wirioneddol ddwyieithog yw trwy ystyried y ddwy iaith yn gyfartal o'r cychwyn cyntaf.

Gan fod pob digwyddiad yn amrywio yn ei drefniadaeth, mae'n anodd pennu senario hollgynhwysol. Rydym felly yn cynnig tair enghraifft i chi o ddigwyddiadau ar draws yr ystod o leoliadau gwaith ieuencid. Maen nhw'n amrywio yn ôl eu natur, cyfranogion a lefel gweithredu. Rhyngddynt, gobeithiwn eu bod yn cwmpasu'r agweddau mwyaf perthnasol. Y tair enghraifft a amlygir yw:

- **gwaith grŵp – sesiwn testunol mewn clwb;**
- **gweithgaredd torfol – twrnamaint pêl-droed rhanbarthol, a**
- **chyfarfod ffurfiol – Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol rhanbarthol/ cenedlaethol.**

3.3.1 Gwaith grŵp – sesiwn testunol

Nid tasg hawdd yw sicrhau sesiwn hyfforddi neu sesiwn testunol sy'n llwyddiannus. Er eu bod yn aml yn anffurfiol eu natur, gall sesiynau testunol ymdrin â materion sensitif neu ddadleuol sy'n ysgogi emosiwn neu ddadlau. Yn aml, mae'n anodd llywio sesiynau penodol mewn un iaith, ac mae sicrhau elfen o ddwyieithrwydd yn galw am fwy fyth o fedrusrwydd.

Hwylusydd dwyieithog – yn amlwg, byddai cael hwylusydd dwyieithog i arwain, neu hwylusydd ar y cyd, yn gymorth i'r sesiwn fod yn ddwyieithog. Byddai'n gallu gosod naws ac ymateb i gyfranogwyr yn y naill iaith neu'r llall. Byddai hyn yn ddull anffurfiol o ddefnyddio'r ddwy iaith, gan olygu bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u hannog i gyfrannu yn eu hiaith ddewisol.

Yn aml, nid felly mae. Serch hynny, os oes gan eich grŵp weithwyr ieuencid dwyieithog gallent fod wrth law i gynorthwyo a hwyluso unrhyw agweddau dwyieithog o'r sesiwn. Yn aml, mae gan nifer o gyrrff gwirfoddol a statudol gynrychiolwyr dwyieithog y gallant eu hanfon i arwain sesiynau testunol gyda grwpiau ieuencid. At hynny, mae gan bob ardal yng Nghymru gwmnïau theatr ieuencid y gellir eu defnyddio'n aml fel adnodd ar gyfer gwaith drama dwyieithog testunol, er enghraifft.

Grwpiau llawn – yn y bôn, wrth arwain gwaith testunol, mae grwpiau llawn yn tueddu i gael eu harwain mewn un iaith yn unig. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod arwain trafodaethau ar faterion dadleuol a chymhleth yn llwyddiannus yn waith sy'n gofyn am gryn dipyn o fedrusrwydd, ac yn ail, mae grwpiau uniaith/dwyieithog yn tueddu i ddefnyddio'r iaith gyffredin – sef Saesneg.

Fodd bynnag, mae'n bosib y byddai nifer o bobl ddwyieithog yn gallu hwyluso grwpiau llawn dwyieithog. Os ydych yn ffyddiog y gallwch ddod

i ben â thrafodaeth ddwyieithog, yna gwnewch hynny ar bob cyfrif – ond gwnewch hynny'n hyblyg, h.y. peidiwch â cheisio cyfieithu pob gair neu frawddeg. Pwysleiswch yr ystyr, dilynwch y llif, gan sicrhau fod pawb yn dilyn y trywydd iawn.

Grwpiau gwaith dwyieithog – hyd yn oed os na ellir cynnal grwpiau llawn yn ddwyieithog, mae defnyddio grwpiau gwaith sy'n seiliedig ar iaith yn ddull defnyddiol o sicrhau dewis iaith. Byddai siaradwyr Cymraeg wedyn yn cael y cyfle i drafod y pwnc yn Gymraeg. Os oedd y mater yn un o natur sensitif neu ddadleuol mae'n bosib iawn y byddai pobl ifanc yn gallu mynegi eu hunain yn well yn Gymraeg. Yn gyffredinol, mae grwpiau gwaith llai yn creu trafodaeth well, beth bynnag. Anogwch fod unrhyw nodiadau, ymarferion ymarferol neu gyfathrebu sy'n angenrheidiol yn digwydd yn ddwyieithog neu yn y naill iaith neu'r llall.

Offer cyfieithu – gall defnyddio offer cyfieithu mewn sesiynau testunol anffurfiol achosi anawsterau yn aml, er y gallant weithio'n dda mewn hyfforddiant mwy ffurfiol. Maent fel arfer y tu hwnt i gyllideb grwpiau ieuencid – oni bai fod gennych fynediad at set yn rhad ac am ddim trwy eich awdurdod lleol. Gall mentrau iaith lleol hefyd fod yn ffynhonnell o gymorth yn hyn o beth. Mae rhai o'r Mentrau Iaith yn cynnig benthyca offer cyfieithu ar y pryd yn rhad ac am ddim – ond bydd yn rhaid i chi ddod o hyd i gyfieithydd. Holwch eich Menter Iaith leol am fanylion ynghylch y ddarpariaeth leol (www.mentrau-iaith.com). Nid yw offer cyfieithu yn ateb pob problem. Dim ond un arf yn y dasg llawer ehangach o drefnu digwyddiad dwyieithog yw offer cyfieithu.

Mêts iaith – syniad mwy ymarferol, yn enwedig pan fo unigolion uniaith mewn lleiafrif, yw bachu gwasanaethau rhai 'mêts iaith'. Gall mêts iaith fod yn weithwyr ieuencid dwyieithog, aelodau hŷn neu gyfoedion a all fras gyfieithu neu sibrwd yng nghlust rhywun gan eu cadw'n hysbys o'r drafodaeth. Mae'n drefniant llawer mwy anffurfiol, hyblyg a rhyngweithiol na defnyddio offer cyfieithu ar y pryd.

Uwch daflunyddion a thafleuni – mae paratoi tafleuni uwchdaflunyddion a thafleuni gwybodaeth ymlaen llaw yn gymharol rwydd gyda pheth cynllunio, meddwl a chefnogaeth.

Deunydd gwybodaeth - mae gan bob asiantaeth statudol a'r rhan fwyaf o gyrff gwirfoddol lenyddiaeth gwybodaeth ddwyieithog ar faterion perthnasol y gellir eu defnyddio a'u dosbarthu.

Hyfforddiant – mae hyfforddiant yn agwedd bwysig ar waith ieuencid da, boed hwnnw'n hyfforddiant sy'n seiliedig ar destun, hyfforddiant aelodau hŷn neu hyfforddiant gweithwyr ieuencid. Mae hefyd yn bosibl hwyluso digwyddiadau hyfforddi yn ddwyieithog. Mae taflen ddefnyddiol 'Nodiadau ar Hyfforddi Dwyieithog' gan Alan Whittick a Gareth Ioan, a gyhoeddwyd gan Urdd Gobaith Cymru/ YMCA (1992) yn rhoi cyngor cadarn ar agweddau o hyfforddi grwpiau'n ddwyieithog.

Cyd-drefnu Digwyddiad – mae bob amser yn opsiwn i drefnu digwyddiad ar y cyd â mudiad Cymraeg ei gyfrwng arall. Y cam cyntaf byddai mynd ati i feithrin perthynas agosach â chlybiau, a grwpiau ieuencid lleol sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yna'n trafod y posibiladau o gyd-drefnu ambell i ddigwyddiad.



3.3.2 Gweithgaredd torfol – twrnamaint pêl-droed rhanbarthol

Enw – mae enwau'n bwysig, maent yn labeli sy'n gyforiog o ystyr. Gall hyd yn oed enw twrnamaint pêl-droed gyfleu agwedd eich sefydliad at iaith.



Logos a Sloganau – mae'n bwysig cael logo neu slogan sy'n gweithio yn y ddwy iaith. Dyma enghraifft o bwysigrwydd rhoi ystyriaeth gyfartal i'r ddwy iaith o'r cychwyn cyntaf. Does dim pwrpas cael slogan glyfar sy'n gweithio'n dda mewn un iaith os nad oes modd ei chyfieithu neu gael slogan gyfatebol yn yr iaith arall. Mae'n rhaid cymryd gofal arbennig wrth lunio acronym neu eiriau mwys (pyns) bachog a chlyfar. Prin iawn yw'r rhai sy'n gweithio yn y ddwy iaith.

Pamffledi a phosteri – maent yn cyfleu eich ymroddiad i ddwyieithrwydd yn ogystal â rhoi cyfle cyfartal i ddarllen eich deunydd yn y naill iaith neu'r llall i'r gwylwyr a chystadleuwyr posib. Mae'n well (ac yn rhatach) cynhyrchu deunydd dwyieithog mewn un ddogfen, poster neu daflen, yn hytrach na chynhyrchu deunydd ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mater o weledigaeth a dylunio effeithiol ydyw yn y bôn. Mae manylion pellach ar gael yn y Canllawiau Dylunio Dwyieithog yn adran gyhoeddiadau gwefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg (www.byig-wlb.org.uk). Mae cael y ddwy iaith ar un poster neu ar un daflen yn osgoi'r broblem o orfod sicrhau bod cydraddoldeb o ran dosbarthu ac arddangos y deunydd, (h.y. os oes posteri Cymraeg a Saesneg ar wahân, sut allwch chi sicrhau bod yr un nifer yn y ddwy iaith yn cael

eu dosbarthu, a sut allwch chi sicrhau bod fersiwn Cymraeg yn ymddangos ar bwys un Saesneg bob tro?).

Y Wasg a'r cyfryngau – mae'n bosib iawn y byddwch yn dymuno ystyried cyhoeddi datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau yn ddwyieithog ar gyfer digwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae rhai papurau newydd rhanbarthol yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru yn rhai cyfrwng Cymraeg, mae eraill yn cyflwyno storïau newyddion yn Gymraeg er bod y rhan fwyaf o'r papur ei hun yn Saesneg. Mae adroddiadau ar ddigwyddiadau chwaraeon yn fwy tebygol o gael cyhoeddusrwydd na datganiadau i'r wasg ar lefel lleol, yn enwedig os gallwch gynnwys lluniau. Ysgrifennwch eich adroddiadau nid yn unig yn iaith y cyfrwng lleol ond hefyd yn ôl y darllenydd lleol.

Gall papurau cenedlaethol megis *Y Cymro* neu *Golwg* ddangos diddordeb yn eich gweithgareddau. Felly hefyd gyfryngau cyfrwng Cymraeg megis *Radio Cymru*, S4C, gwefan BBC Cymru'r Byd a golwg360. Mae nifer o orsafoedd radio lleol yn croesawu eitemau Cymraeg. Mae gorsafedd radio masnachol yng ngogledd a gorllewin Cymru yn darlledu cyfran helaeth o'u horiau yn Gymraeg.

Mae hefyd yn werth gwybod bod rhwydwaith cenedlaethol o bapurau newyddion lleol Cymraeg a elwir yn *Bapurau Bro*. A ydych yn gwybod am eich *papur bro* lleol chi?

Rhaglenni, taflenni tîm a siartiau gornestau

– yn ystod y gystadleuaeth ei hunan does dim rheswm pam na all unrhyw lenyddiaeth a gynhyrchir gennych fod yn ddwyieithog. Ceir fformatau amrywiol y gellid eu defnyddio ar gyfer cyhoeddiadau dwyieithog. Fel arfer fodd bynnag, gosod un iaith uwchben y llall, ochr yn ochr, neu gymal wrth gymal, yw'r dull mwyaf effeithiol o gyflwyno gwybodaeth sylfaenol fel rhaglenni, taflenni tîm a siartiau gornestau. Gall rhai rhaglenni rhyngwladol fod yn enghreifftiau da i'w dilyn.

Dyfarnwyr – mae sicrhau dyfarnwr dwyieithog weithiau o gymorth, yn enwedig os oes nifer o siaradwyr Cymraeg yn cymryd rhan. Gellir lleddfu tymer aml i baffiwr byrbwyll os cyferchir ef yn ei iaith ei hunan – fel y gall yr heddlu dystio! Mae annog y dyfarnwr i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd mewn prif benderfyniadau – fel cic gosb/*penalty*, taflriad/*throw-in*, cic rydd/*free kick*, camsefyll/*offside* – hefyd yn hwyluso dwyieithrwydd.

Pwynt eithriadol o bwysig yw na ddylai dyfarnwr rwystro chwaraewyr rhag defnyddio'r Gymraeg ar y cae ar unrhyw adeg ar y sail nad yw ef neu'r gwrthwynebwyr yn deall yr hyn sy'n cael ei ddweud. Mae gan bawb yr hawl i siarad yr iaith o'u dewis. Sawl iaith a glywir ar gaeau pêl-droed uwch-gynghrair Lloegr, sgwn i?



Cyhoeddiadau – os ydych yn defnyddio system gyfarch gyhoeddus, mae cyhoeddiadau dwyieithog yn rhoi proffil cyhoeddus pwysig i'r ddwy iaith ac yn gallu gosod cyd-destun cadarnhaol ar gyfer defnyddio'r ddwy iaith yn y gystadleuaeth - fel y gwneir yn Stadiwm y Mileniwm a'r Sioe Frenhinol.

Tystysgrifau a tharianau – mae tarianau a thystysgrifau yn fomentos gwerthfawr o gyfranogiad neu lwyddiant. Mae'n bwysig bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu cysylltu â'r bri a'r llwyddiant hwnnw.

Gweithgareddau Cerddorol – o bryd i'w gilydd, ar ddiwedd twrnaint neu gystadleuaeth chwaraeon, trefnir noson gerddorol i gloi'r gweithgareddau. Unwaith eto, ystyriwch sut y gallwch chi sicrhau bod bandiau sy'n canu yn y Gymraeg/dwyieithog yn cael eu llogi, yn ogystal â bandiau sy'n canu yn Saesneg. Bydd eich Menter iaith leol yn gallu eich cynorthwyo â hyn (www.mentrau-iaith.com).



3.3.3 Cyfarfodydd ffurfiol – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Rydym yn ymwybodol nad oes gan bob grŵp ieuencid Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol, heb sôn am un ffurfiol. Serch hynny, mae rhai grwpiau ieuencid yn cynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol ffurfiol ac yn sicr bydd gan nifer o ffederasiynau lleol o grwpiau ieuencid ddigwyddiad blynyddol ffurfiol o ryw fath neu'i gilydd. Gall y pwyntiau a geir isod, fodd bynnag, fod yr un mor berthnasol i'ch sefydliad ar sail ranbarthol neu genedlaethol.

Cyfarfodydd dwyieithog – mae cynnal cyfarfodydd ffurfiol dwyieithog yn arfer cymharol newydd i'r rhan fwyaf o sefydliadau ac mae ffordd bell i fynd eto cyn y bydd arfer dwyieithog yn dod yn norm. Er mwyn cynnal cyfarfod dwyieithog llwyddiannus, felly, mae'n rhaid wrth gynllunio'r cyfarfod ymlaen llaw. Hanfod llwyddiant cyfarfod dwyieithog yw creu amgylchedd sy'n:

- **gynhwysol;**
- **difygythiad;**
- **hwyluso'r cyfle i bawb gyfrannu yn eu dewis iaith;**
- **caniatáu i bawb gael eu deall, a lle**
- **y perchir cyfraniad pob un.**

Nodwch y geiriad 'hwyluso'r cyfle i bawb gyfrannu'. Yn anffodus, mae angen llywio a chynorthwyo dwyieithrwydd o hyd. Yn sgil canrifoedd o ffurfioldeb uniaith ym mywyd cyhoeddus Cymru, mae angen i drefnwyr fod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo dwyieithrwydd.

Papurau galw – y pwynt cyswllt cyntaf gyda chyfarfod ffurfiol yn aml yw'r papurau galw. Byddai angen cyfieithu'r rhain. Rydym yn cynnig cyngor pellach ar gyfieithu ar ddiwedd yr adran hon. Gellir gosod papurau galw cefn wrth gefn neu mewn colofnau fertigol sy'n caniatáu hunaniaeth

ddwyieithog i chi ac sy'n rhoi cyfle i gynrychiolwyr ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall neu'r ddwy iaith yn ôl eu dewis.

Fel y nodwyd yn gynharach, nid yw sgiliau ieithyddol dwyieithog yn sefyllfa o ddu a gwyn. Yn wir, mae nifer arwyddocaol o bobl yn dewis defnyddio'r ddwy iaith mewn cyfarfod. Byddai'n well gan rai siaradwyr rhugl eu Cymraeg, nad ydynt efallai, wedi derbyn addysg ffurfiol yn y Gymraeg, gyfeirio at y gwaith papur yn Saesneg. At hynny, mae dysgwyr y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg llai hyderus yn aml yn defnyddio'r fersiwn Cymraeg fel disgyblaeth ddysgu i wella eu geirfa a'u sgiliau adnabod geiriau.

Os ydych yn defnyddio offer cyfieithu, sicrhewch eich bod yn cynnwys yr angen am offer cyfieithu ar y rhestr o ddewisiadau ar y taflenni ateb er mwyn i gynrychiolwyr allu eich hysbysu o'u hangen wrth gofrestru neu gadw lle. Yn yr un modd, os ydych yn trefnu grwpiau trafod, byddai ymholiad ynghylch dewis iaith hefyd yn helpu eich cynllunio.

Adroddiad blynyddol – mae eich adroddiad blynyddol yn chwifio sawl baner o fewn ac oddi allan i'r sefydliad. Gall adroddiadau blynyddol, o'u defnyddio'n greadigol, fod yn brif arf mewn strategaeth farchnata a chyhoeddusrwydd. Mae sicrhau adroddiad dwyieithog yn arwydd o'ch bwriad i gadw dwyieithrwydd ar frig eich agenda. Mae adroddiad blynyddol yn disgrifio eich sefydliad – yr hyn mae'n ei wneud, pwy sy'n gysylltiedig ag ef, beth yw ei lwyddiannau a'i anawsterau. Mae cyhoeddi adroddiad dwyieithog yn cyhoeddi fod dwyieithrwydd hefyd yn rhan o'ch gwerthoedd craidd.

Y Cadeirydd a siaradwyr – mae clywed y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu siarad o lwyfan yn rhoi awdurdod i'r ddwy iaith mewn cyfarfod. Mae siaradwyr Cymraeg yn aml yn swil i gyfranogi yn y Gymraeg pan fydd y cyfarfod yn amlwg yn cael ei gynnal yn bennaf yn Saesneg. (Un rheswm yw'r amharodrwydd i ddwyn embaras arnynt eu hunain



ac eraill wrth ymrafael am glustffonau coll!). Mae cael rhai o'r siaradwyr ac yn arbennig y Cadeirydd i siarad yn Gymraeg yn cyfreithloni eu cyfraniadau Cymraeg hwythau, a byddent yn teimlo'n fwy agored a pharod i wneud hynny. Mae'r ffordd mae'r Cadeirydd yn gosod naws, ac yn gosod y cyddestun ieithyddol ar gyfer cyfarfod yn hanfodol. Mae cael Cadeirydd dwyieithog a all hwyluso cyfraniadau yn y naill iaith neu'r llall yn hanfodol i gynnal cyfarfod dwyieithog llwyddiannus.

Gall y Cadeirydd (os yw'n siaradwr Cymraeg rhugl ai peidio) ystyried y pwyntiau canlynol fel canllawiau arfer da wrth gadeirio cyfarfodydd dwyieithog:

- **Croesawu pawb yn ddwyieithog o'r gadair;**
- **Dwyn sylw at yr offer cyfieithu a'u diben;**
- **Sicrhau bod pawb sydd ag angen offer wedi eu derbyn – mae'n haws gwneud hynny weithiau na rhoi set o glustffonau ar bob sedd;**
- **Sicrhau bod yr offer yn gweithio, a bod pawb yn deall sut i'w ddefnyddio. Mae'n bwysig gwneud hyn ar ddechrau'r cyfarfod;**
- **Esbonio pwysigrwydd gwranddo ar gyfraniadau a wneir yn Gymraeg, er mwyn peidio â chamwahaniaethu yn erbyn siaradwyr Cymraeg ar sail yr iaith yn maent yn ei ffafrio;**
- **Os yw'r Cadeirydd yn siarad Cymraeg, gall gadeirio yn rhannol neu'n llwyr trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn normaleiddio'r defnydd o'r iaith yn y cyfarfod;**
- **Os nad yw'r Cadeirydd yn medru siarad Cymraeg, mae'n bwysig iddo annog y defnydd o'r ddwy iaith yn gyson yn ystod y cyfarfod;**
- **Atgoffa pawb i ddychwelyd eu hoffer cyfieithu ar ddiwedd y cyfarfod.**



Trefnydd y Cyfarfod – mae pethau penodol y gall trefnwyr cyfarfodydd eu gwneud er mwyn hwyluso achlysur sy'n wirioneddol ddwyieithog:

- **Hyrwyddo'r cyfarfod yn ddwyieithog ac anfon gwybodaeth yn y ddwy iaith;**
- **Trefnu cyfieithydd ac offer cyfieithu os oes galw amdanynt. Does dim angen cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg, dim ond o'r Gymraeg i'r Saesneg;**
- **Croesawu mynychwyr yn ddwyieithog wrth iddynt gyrraedd;**
- **Sicrhau fod pecynnau gwybodaeth, deunydd a dogfennau'n ddwyieithog;**
- **Trefnu bod yr holl arddangosfeydd a deunydd marchnata yn ddwyieithog – gan gynnwys y deunydd a arddangosir ar stondinau mudiadau allanol;**
- **Sicrhau bod cyflwyniadau gweledol (e.e. PowerPoint) yn ddwyieithog;**
- **Trefnu bod o leiaf un o'r prif siaradwyr yn annerch yn Gymraeg er mwyn codi statws yr iaith yn y cyfarfod. Bydd hyn yn ymrymuso eraill i gyfrannu yn Gymraeg;**
- **Ystyried dulliau i gynnal gweithdai Cymraeg os oes modd, neu drefnu hwyluswyr dwyieithog er mwyn galluogi'r defnydd anffurfiol o'r ddwy iaith mewn gweithdai.**

Grwpiau trafod a grwpiau llawn – fel gyda'r enghraifft o waith grŵp uchod, mae bob amser yn werth ystyried grwpiau trafod sy'n seiliedig ar iaith, neu pan fydd siaradwyr uniaith yn y lleiafrif, neu sicrhau fod y rhai hynny sydd angen cyfieithiad yn cael eu trefnu yn yr un grŵp neu grwpiau.

Gellir hwyluso grwpiau llawn naill ai trwy gyfieithu ar y pryd – neu, os ydych ond yn disgwyl ychydig o gwestiynau yn Gymraeg, gan Gadeirydd dwyieithog neu ffigwr amlwg arall a all gyfieithu cyfraniadau mewn modd clir, sensitif ac awdurdodol.

Cyfieithu ar y pryd – mae defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn dod yn arfer cyffredin mewn nifer o leoliadau. Gall y defnydd o gyfieithu ar y pryd fod yn fantais fawr wrth gynnal cyfarfodydd dwyieithog. Serch hynny, gall hefyd fod yn gostus ac mae angen ei ddefnyddio'n briodol. Mae dulliau eraill i alluogi cyfarfod dwyieithog ar wahân i gyfieithu ar y pryd. Gellir cael copi o daflen gwybodaeth ar drefnu cyfarfodydd dwyieithog gan ymgynghorwyr IAITH cyf. (gweler yr adran Adnoddau a Chysylltiadau).

Adroddiadau i'r wasg a'r cyfryngau – fel gyda gweithgareddau torfol mae'n bwysig asesu anghenion ieithyddol eich cysylltiadau yn y wasg a'r cyfryngau. Mae'n bosib iawn y bydd gan y cyfryngau Cymraeg eu hiaith, yn genedlaethol a rhanbarthol, ddiddordeb yn eich cyfarfodydd a'ch seminarau. Bydd cyflwyno datganiadau i'r wasg yn ddwyieithog a sicrhau fod gennych gynrychiolwyr dwyieithog i siarad ar eich rhan yn hwyluso sylw defnyddiol gan y cyfryngau. Mae rhai cwmnïau cysylltiadau cyhoeddus yn arbenigo mewn gwaith cyfrwng Cymraeg (gweler yr adran Adnoddau a Chysylltiadau).

Cyfieithu testun – mae cyfieithu testun yn aml yn cael ei ystyried gan nifer o sefydliadau yn rhwystr na ellir ei oresgyn. Serch hynny, yng nghyd-destun gwaith ieuenctid, ni ddylai fod yn faich. Nid yw'r rhan fwyaf o grwpiau ieuenctid yn defnyddio dogfennau swmpus, ac nid oes ganddynt chwaith fiwrocratiaeth anferth. Mae'r anghenion cyfieithu yn aml yn syml – posteri, pamffledi, geiriau allweddol a rhai ffurflenni. Gallai mwyafrif anghenion cyfieithu grwpiau ieuenctid gael eu diwallu'n briodol gan gefnogwyr lleol cymwys eu sgiliau, gan uned gyfieithu eich awdurdod lleol neu, yn well byth, gan y bobl ifanc eu hunain. Mae Llinell Gyswllt â'r Gymraeg (www.llinellgyswllt.co.uk) Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cynnig cyfieithiadau syml yn rhad ac am ddim, a byddai eich Menter Iaith leol hefyd yn eich rhoi ar ben y ffordd (www.mentrau-iaith.com). Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (corff proffesiynol cyfieithwyr Cymru) yn cyhoeddi Cyfeirlyfr Cyfieithwyr Cymru (www.cyfieithwycymru.org.uk).

4.0 Darpariaeth cyfrwng-Cymraeg

Tra bod y ddogfen hon yn anelu at hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd dwyieithog i waith ieuencid, mae'n bwysig cofio, fel nodwyd yn gynharach, fod cynnig darpariaeth gyfan gwbl Gymraeg hefyd yn cael ei gydnabod yn rhan hanfodol o gynnig cyfleoedd cyfartal i bobl ifanc. Dylai siaradwyr Cymraeg ifanc gael y cyfle i gymdeithasu mewn cyd-destunau lle mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn norm, h.y. y brif, os nad yr unig, iaith a ddefnyddir. Mae amgylchiadau o'r fath yn caniatáu i siaradwyr Cymraeg fynegi eu hunain yn rhydd yn Gymraeg heb yr angen am gyfaddawd ieithyddol, ac yn caniatáu cyswllt diwylliannol gwerthfawr o fewn eu grŵp iaith eu hunain.

I sefydliadau Cymraeg eu hiaith megis Urdd Gobaith Cymru, darparu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yw eu prif fwriad. Serch hynny, mae nifer o Ffederasiynau Clybiau Ffermwyr Ifanc sirol hefyd yn gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Gymraeg, yn ôl natur ieithyddol eu hardaloedd a'u haelodaeth. Mae nifer o fudiadau gwirfoddol eraill, awdurdodau lleol a sefydliadau annibynnol eraill hefyd yn darparu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg penodol ar gyfer pobl ifanc. Fodd bynnag, drwy Gymru gyfan, mae cyfleoedd o'r fath yn gyffredinol brin.

Er y byddwn yn annog pob sefydliad i ddatblygu darpariaeth ddwyieithog, gallai ychydig o feddwl ynglŷn â'r posibilrwydd o ddarparu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg hefyd fod yn werthfawr. Gallai darpariaeth o'r fath gynnwys clwb rheolaidd, boed hwnnw'n glwb cymunedol neu glwb diddordeb neu'n ddigwyddiadau unigol. Mae enghreifftiau o waith o'r fath yn cynnwys:

- **sesiynau hyfforddi cyfrwng Cymraeg yng nghlwb pêl-droed Caerdydd;**
- **gwirfoddolwyr Cymraeg ifanc yn cynnal stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol;**
- **clwb ieuencid mewn ysgol uwchradd ddwyieithog;**
- **grwpiau gwobrwyo cyfrwng Cymraeg;**
- **siaradwyr Cymraeg ifanc sy'n ymwneud â chynhyrchu deunydd hysbysrwydd i fudiadau ieuencid;**
- **gwaith hybu ieched gan gyfoedion trwy gyfrwng y Gymraeg.**

Mae'r posibiladau wrth gwrs yn ddiddiwedd. Trwy ddefnyddio gweithwyr ieuencid sy'n siarad Cymraeg gall unrhyw fudiad neu gorff ddarparu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg unrhyw le yng Nghymru. Mae'n ddatblygiad sydd ei angen yn fawr.



5.0 Beth nesaf?

Yn y ddogfen hon rydym wedi ceisio amlinellu'r prif ffactorau mae angen i weithwyr ieuenctid eu hystyried wrth gynllunio a gweithredu darpariaeth gwaith ieuenctid dwyieithog. Ymhellach, mae'r enghreifftiau uchod, gobeithio, yn darparu arweiniad ymarferol defnyddiol ar gyfer ystod o amgylchiadau gwaith ieuenctid y gellir eu haddasu i'ch sefyllfa chi.

Beth nesaf? Wel, cyn symud ymlaen, beth am gloriannu'r sefyllfa bresennol o fewn eich sefydliad? Er enghraifft, ydych chi'n gwybod faint o'ch aelodau sy'n ddwyieithog? Sawl aelod o staff neu wirfoddolwyr dwyieithog sydd gennych? A ydych wedi eu holi erioed? Pa agweddau ar eich gweithgareddau sy'n digwydd yn ddwyieithog yn barod? Pa agweddau eraill sydd angen sylw? Cloriannwch y sefyllfa. Cynhaliwch awdit iaith. Nodwch yr hyn allwch chi ei gyflawni yn y tymor byr, tymor canolig a thymor hir.



Unwaith i chi benderfynu ar yr hyn y teimlwch fod angen ei wneud o ran datblygu dwyieithrwydd, fel pob gwaith datblygol arall, mae'n rhaid ei gynllunio. Blaenoriaethwch eich dymuniadau. Beth allwch chi ei gyflawni yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir? Cymerwch un cam ar y tro. Gwnewch yn siŵr fod gennych gefnogaeth ac adnoddau priodol. Cynhwyswch bawb yn y newid - yn enwedig y bobl ifanc eu hunain.

Gweithredwch eich cynllun, eto gyda chyfranogaeth pobl ifanc, a gwerthuswch y sefyllfa o dro i dro. Mae hyn yn rhan annatod o'r cylch cynllunio syml yr ydym oll yn ei ddefnyddio wrth ddarparu ein gwaith ieuenctid – asesu, cynllunio, gweithredu a gwerthuso.

I grwpiau lleol ac awdurdodau lleol mae'n bosib iawn y bydd eich Menter Iaith leol yn gyswllt cyntaf defnyddiol. Dylent fod yn medru eich cynorthwyo i ddatblygu cynllun gweithredu, pennu adnoddau a gweithio gyda chi i ddatblygu eich arfer dwyieithog. Mae rhestr o'r Mentrau Iaith hefyd yn cael ei chynnwys yn yr adran Adnoddau a Chysylltiadau. Felly hefyd Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf. Bydd cyhoeddiad defnyddiol y Rhwydwaith, *Cymunedau yn Gyntaf a Dwyieithrwydd: Ateb yr Her* yn rhoi arweiniad ymarferol pellach o bersbectif cymunedol.

Yn olaf, gobeithio y bydd y cyflwyniad hwn i waith ieuenctid dwyieithog o gymorth i chi, ac y bydd yn cyfrannu at ddatblygu gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru sy'n ymgeisio'n barhaus i ddarparu gwaith ieuenctid cynhwysol ar gyfer Cymru gynyddol ddwyieithog. **Pob hwyl ar y gwaith!**

6.0 Adnoddau a Chysylltiadau

Adnoddau a chyngor cyffredinol ar ddwyieithrwydd:

- **Bwrdd yr Iaith Gymraeg**, Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd - (02920 878000). www.byig-wlb.org.uk
- **Iaith: y ganolfan gynllunio iaith**, Unedau 2-4, Parc Busnes Aberarad, Castellnewydd Emlyn, Sir Gaerfyrddin. – (01239 711668). www.iaith.eu
- **Estyn Llaw – Datblygu Dwyieithrwydd yn y Sector Gwirfoddol**, Unedau 2-4, Parc Busnes Aberarad, Castellnewydd Emlyn, Sir Gaerfyrddin. – (01239 711668). www.estynllaw.org
- **Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf** – www.cymunedau-yn-gyntaf.org
- **Canolfannau Cymraeg i Oedolion:** Llywodraeth Cynulliad Cymru, Addysg a Sgiliau <http://newydd.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/wfasub/welshforadults/?lang=cy>
- **THINK Signs** - www.bilingualsigns.co.uk
- **Mentrau Iaith Cymru** - www.mentrau-iaith.com
 - Menter Iaith Môn, Llŷs Goferydd, Stâd Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Môn – (01248 725700)
 - Menter Iaith Conwy, Y Sgwâr, Llanrwst, Sir Conwy – (01492 642357)
 - Menter Iaith Sir Ddinbych, Adeilad Deiamwnt, 6 Heigad, Dinbych, Sir Ddinbych – (01745 812822)
 - Menter Iaith Sir y Fflint, Uned 3, Parc Busnes Yr Wyddgrug, Ffordd Wreccsam, Yr Wyddgrug – (01352 744040)
 - Menter Iaith Maelor, Tŷ AVOW, 21 Stryt Egerton, Wreccsam – (01978 363791)
 - Menter Maldwyn, Yr Hen Goleg, Ffordd yr Orsaf, Y Drenewydd, Powys – (01686 614020)
 - Menter Brycheiniog a Maesyfed, Y Ganolfan Ieuenctid a Chymuned, Hendreladus, Heol Aberhonddu, Ystradgynlais – (01639 844513) / (08708 510583)
 - Cered, Theatr Felinfach, Dyffryn Aeron, Ceredigion – (01570 572350)
 - Menter Bro Dinefwr, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo – (01558 825336) / 1A Stryd y Coleg, Rhydaman – (01269 597525)
 - Menter Gorllewin Sir Gâr, Stryd y Bont, Castellnewydd Emlyn – (01239 712934)
 - Menter Cwm Gwendraeth – Llanelli, 11-15 Heol Coalbrook, Pontyberem, Llanelli – (01269 871600) / Uned 6 a 7, Canolfan Fenter Llynnoedd Delta, Y Rhodfa, Llynnoedd Delta, Llanelli – (01554 755994)
 - Menter Iaith Sir Benfro, Tŷ'r Ysgol, Ysgol y Preseli, Crymymch, Sir Benfro – (01239 831129) / Canolfan Ddysgu Gymunedol, Ysgol Bro Gwaun, Heol Dyfed, Abergwaun – (01348 873700)
 - Menter Iaith Abertawe, Tŷ Tawe, 9 Stryd Christina, Abertawe – (01792 460906)
 - Menter Castell Nedd Port Talbot, Ystafell 14, Canolfan Gymunedol y Groes, Pontardawe – (01792 864949)
 - Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful, Neuadd Soar, Pontmorlais, Merthyr Tudful – (01685 722176)
 - Menter Bro Ogwr, Tŷ'r Ysgol, Pen yr Ysgol, Maesteg – (01656 732200)
 - Menter Iaith Rhondda Cynon Taf, 9a Stryd Fawr, Pontypridd – (01443 407570)
 - Menter Caerdydd, 42 Lambourne Crescent, Parc Busnes Caerdydd, Llanisien – (02920 689888)
 - Menter y Fro, Uned 12, Canolfan Fenter Gymunedol Y Barri, Skomer Road, Morgannwg – (01446 720600)
 - Menter Iaith Sir Caerffili, YMCA Bargod, Aeron Place, Gilfach, Bargod – (01443 820913)
 - Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy, Gorsaf Dàn, Henllys Way, Cwmbrân – (01633 489326)

Adnoddau a gwefannau gweithgaredd ieuentid dwyieithog:

- **Yr Is-adran Cyfleoedd Dysgu Ieuentid ac Oedolion**, Llywodraeth Cynulliad Cymru – (01443 663814).
http://newydd.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/extending_entitlement/?lang=cy
- **Canolfan Adnoddau Urdd Gobaith Cymru**, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, Ceredigion - (01970 626120). www.urdd.org
- **CFfl Cymru**, Canolfan CFfl, Llanellwedd, Llanfair-ym-Muallt, Powys – (01982 553502). www.yfc-wales.org.uk
- **Draig Ffyfnci** – Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru – www.funkydragon.org
- **Cynllun Gwobr Dug Caeredin**, Oak House, 12 The Bulwark, Aberhonddu, Powys – (01874 623086). www.theaward.org/wales
- **Hybu Iechyd Cymru**, Ffynnon-las, Rhodfa Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd – (02920 681239)

Gwybodaeth gyffredinol:

- www.bbc.co.uk/cymru (BBC Cymru'r Byd - safle Cymraeg cyffredinol)
- www.golwg360.com (Gwefan newyddion cyfrwng Cymraeg – bob dydd, trwy'r dydd)
- www.bandit247.com (Bandit – rhaglen deledu Cymraeg ar gerddoriaeth gyda'r diweddaraf o'r byd pop yng Nghymru)
- www.eisteddfod.org.uk (Yr Eisteddfod Genedlaethol)
- www.maes-e.com (fforwm Cymraeg ar y rhyngwrdd)
- www.blogiadur.com (gwefan sy'n tynnu nifer o flogiau Cymraeg at ei gilydd mewn un lleoliad)
- www.curiad.org (gwybodaeth ynghylch cerddoriaeth Gymraeg)
- www.uned5.co.uk (Uned 5, rhaglen deledu cylchgrawn ieuentid S4C)
- www.bbc.co.uk/cymru/mosgito (rhaglen deledu cylchgrawn ieuentid y BBC ar S4C)
- www.bbc.co.uk/cymru/ffeil (rhaglen newyddion ieuentid y BBC ar S4C)
- www.s4c.co.uk/pencampau (cwis chwaraeon ieuentid S4C)
- www.s4c.co.uk/rowndarownd (opera sebon ieuentid S4C)

Prif gwmnïau ac asiantaethau cyfieithu:

- **Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru**, Bryn Menai, Ffordd Caergybi, Bangor, Gwynedd – (01248 371839). www.cyfieithwycymru.org.uk
- **Cyfiaith**, Uned 12, Clos Pencarreg, Aberaeron – (01545 574674). www.cyfiaith.com
- **Cymen**, Twll yn y Wal, Caernarfon, Gwynedd – (01286 674409). www.cymen.co.uk
- **Prysg**, 15 Cilgant St. Andrew, Cardiff – (02920 668081). www.prysg.co.uk
- **Trosol**, 1 Cwrt-y-Parc, Parc Tŷ Glas, Llanisien – (02920 750760). Swyddfa Castellnewydd Emlyn – (01239 710717). www.trosol.co.uk

Cysylltiadau â'r wasg a'r cyfryngau:

- **Golwg** (cylchgrawn materion cyfoes wythnosol), Blwch Post 4, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion – (01570 423529). www.golwg.com
- **Lingo** (cylchgrawn misol ar gyfer dysgwyr Cymraeg), d/o Golwg, Blwch Post 4, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion – (01570 423529).
- **Y Cymro** (papur wythnosol), 9 Bank Place, Porthmadog – (01766 515514)
- **Sain** (cwmni recordio), Llandwrog, Caernarfon, Gwynedd - (01286 831111). www.sainwales.com
- **Fflach** (cwmni recordio), Ffordd Dinbych y Pysgod, Aberteifi – (01239 614691). www.fflach.co.uk
- **S4C**, Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd – (0870 600 4141). www.s4c.co.uk
- **Ystafell newyddion BBC Cymru**, Y Ganolfan Ddarlledu, Llandâf, Caerdydd (029 20 322000) / Brynmeirion, Bangor, Gwynedd (01248 370880) www.bbc.co.uk/cymru
- **Ystafell newyddion Radio Cymru**, Y Ganolfan Ddarlledu, Llandâf, Caerdydd – (029 20 322018). www.bbc.co.uk/cymru/radiocymru
- **Radio Ceredigion**, Yr Hen Ysgol Gymraeg, Heol Alexandra, Aberystwyth, Ceredigion – (01970 627999). www.radioceredigion.net
- **Champion 103 FM**, Llys y Dderwen, Parc Menai, Bangor – (01248 671971) www.champion103.co.uk
- **Sain Abertawe**, Victoria Rd. Tre-gŵyr, Abertawe – (01792 511964). www.swanseasound.co.uk